CYNNWYS

Cwblhau eich Tudalennau Enillion Cyfalaf CGN2

Adran 1 - Cyffredinol - Cwblhau Tudalennau CG1 i CG8

- Diffiniad o gyfranddaliadau wedi'u dyfynnu neu warannoedd ar gyfer y Tudalennau Enillion Cyfalaf CGN2
- Cwblhau Tudalen CG1 CGN3
- Cwblhau Tudalennau CG2 a CG3 CGN4
- Cwblhau Tudalennau CG4 i CG6 CGN6
- Cwblhau TudalenCG7 CGN6
- Cwblhau Tudalen CG8 CGN6

Colledion cyfalaf CGN6

Adran 2 - Canllaw syml i Dreth Enillion Cyfalaf CGN7

Adran 3 - Cyflwyniad i Dreth Enillion Cyfalaf CGN7

- Enillion trethadwy CGN7
- Pwy sy'n talu Treth Enillion Cyfalaf? CGN7
- Asedion CGN7
- Asedion a eithriwyd CGN8
- Gwaredu CGN8
- Derbynebion bach CGN8
- Cysoddi, arnewid a meddiannu cymdeithasau adeiladu CGN9
- Ailffurfio a meddiannu cwmnïau CGN9
- Colledion caniataol o osodwyd yn erbyn incwm CGN9
- Enillion trethadwy eraill CGN9
- Enillion o flynyddoedd cynharach CGN9

Adran 4 - Cyfrifo enillion a cholledion CGN9

- Sut i gyfrifo enillion a cholledion CGN9
- Cyfrifiad syml CGN10
- Sut y caniateir colled? CGN10
- Cario colledion yn ôl CGN11
- A ydych yn gorfod gwneud cais am golledion? CGN11
- Sut i wneud cais am golled CGN11
- A oes terfyn amser ar gyfer gwneud cais am golledion? CGN11
- Beth yw'r dyddiad gwaredu (neu gaffael)? CGN11
- Beth yw'r elw o'r gwaredu? CGN11
- Pa dreuliau y gellir eu didynnu? CGN12
- Pa gostau caffael y gellir eu didynnu? CGN12
- Pa gostau gwella y gellir eu didynnu? CGN12
- Pa gostau achlysurol y gellir eu didynnu? CGN12
- Beth yw gwariant wrth sefydlu, diogelu neu amddiffyn eich hawl i ased? CGN12
- Beth a olygir gan werth marchnad? CGN13
- Amcangyfrifon a phrisiadau CGN13
- Prisiadau a wiriwyd eisoes gan Gyllid y Wlad CGN13
- Pwy yw pobl gysylltiol? CGN13
- Beth yw ased treuliedig? CGN13
- A oes unrhyw addasiad ar gyfer lwfansau cyfalaf? CGN13
- Beth yw adseilio? CGN13
- Beth yw lwfans mynegeio? CGN14
- Beth yw gwaredu'n rhannol? CGN14

Adran 5 - Lwfans Mynegeio CGN14

- Pryd mae lwfans mynegeio yn gymwys? CGN14
- Sut y cyfrifir lwfans mynegeio? CGN14
- Beth am golledion? CGN15
- Pa gostau sy'n denu lwfans mynegeio? CGN15
- Beth am waredu'n rhannol? CGN15
- Beth am drosglwyddo i gymar? CGN15
- Beth am aesdion a ddaliwyd ar 31 Mawrth 1982? CGN15
- Tabl lwfans mynegeio ar gyfer gwarediadau ar ôl 31 Mawrth 1998 CGN16
- Beth am waredu cyfranddaliadau neu warannoedd? CGN17

Adran 6 - Rhyddhad meinhau CGN17

- Cyflwyniad CGN17
- Beth yw ased busnes? CGN17

Adran 7 - Rhyddhad a dewis CGN17

- Eich cartref CGN17
- Mathau eraill o ryddhad CGN17

Adran 8 - Enghreifftiau gwaith o enillion a cholledion CGN19

TAFLENNI CYMORTH A THAFLENNI

Mae taflenni Cymorth a thaflenni sy'n rhoi gwybodaeth fanylach am rai rheolau treth arbennig ar gyfer enillion cyfalaf ar gael o'r Llinell Archebu.

- *IR278: Temporary non-residents and Capital Gains Tax*
- *IR279: Taper relief*
- *IR280: Rebasing - assets held at 31 March 1982*
- *IR281: Husband and wife, divorce and separation*
- *IR282: Death, personal representatives and legatees*
- *IR283: Private residence relief*
- *IR284: Shares and Capital Gains Tax*
- *IR285: Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax*
- *IR286: Income Tax losses for shares you have subscribed for in unlisted trading companies*
- *IR287: Employee share schemes and Capital Gains Tax*
- *IR288: Partnerships and Capital Gains Tax*
- *IR289: Retirement relief and Capital Gains Tax*
- *IR290: Business asset roll-over relief*
- *IR292: Land and leases, the valuation of land and Capital Gains Tax*
- *IR293: Chattels and Capital Gains Tax*
- *IR294: Trusts and Capital Gains Tax*
- *IR295: Relief for gifts and similar transactions*
- *IR296: Debts and Capital Gains Tax*
- *IR297: Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax*
- *IR298: Venture Capital Trusts and Capital Gains Tax*
- *IR299: Non-resident trusts and Capital Gains Tax*
- *IR301: Calculation of the increase in tax charge on capital gains from non-resident, dual resident and immigrating trusts*

Cwblhau eich Tudalennau Enillion Cyfalaf

Casglwch y deunydd sydd ei angen arnoch, megis:

- contractau ar gyfer prynu neu waredu asedion
- anfonebau ar gyfer gwariant caniataol
- copïau o unrhyw brisiannau a gafwyd.

Os oes gennych enillion cyfalaf, bydd yn rhaid i chi gwblhau'r Tudalennau Enillion Cyfalaf **oni bai**:

- y caiff unrhyw enillion o waredu eich unig neu eich prif breswyl eu heithrio o ganlyniad i ryddhad preswyl preifat (gweler y nodyn ar 'eich cartref' ar dudalen CGN17), **ac**
- roedd unrhyw asedion eraill a waredwyd gennych yn y flwyddyn dreth yn werth llai na £14,200 neu lai at ei gilydd (dylech anwybyddu asedion a eithrir - gweler tudalen CGN8 - ond dylech gynnwys unrhyw breswylfan nas eithrir neu a eithrir yn rhannol yn unig), os nad ydych yn preswylio yn y DG ac rydych yn drethadwy ar y sail taliad (gweler Cwestiwn 9 yn eich Ffurflen Dreth) dylech gynnwys yr elw o unrhyw ased dramor a waredwyd yn y flwyddyn hon neu mewn blwyddyn gynharach, i'r graddau bod y rhain wedi cael eu talu i'r DG yn ystod y flwyddyn hon), ac
- roedd eich enillion trethadwy (cyn i unrhyw golledion gael eu didynnu neu cyn i ryddhad meinhau gael ei gymhwyso) yn £7,100 neu lai. (Wrth gyfrifo hyn, dylech gynnwys, er enghraifft, enillion a briodolir i chi fel setlwr neu fuddiolwr ymddiriedolaeth ac unrhyw symiau a dalwyd i'r DG am enillion a gronnodd yn y flwyddyn hon neu mewn blwyddyn dreth gynharach, lle mae'r enillion hynny yn drethadwy ar y sail taliad.)

Mae'r rheolau ar gyfer cwblhau ffurflenni treth yn golygu y bydd yn rhaid gwneud cais am lawer o'r colledion caniataol yn y Ffurflen Dreth hon (gweler tudalen CGN11).

Ni all y nodiadau canlynol, na'r Taflenni Cymorth a'r taflenni, ddisgrifio'r holl amgylchiadau posibl y bydd yn rhaid i chi efallai dalu Treth Enillion Cyfalaf ynddynt. Mewn achosion mwy cymhleth, efallai y bydd yn rhaid i chi gael cyngor proffesiynol neu gallwch ofyn am weld Llawlyfr Treth Enillion Cyfalaf Cyllid y Wlad, sydd ar gael o unrhyw Ganolfan Ymholiadau Cyllid y Wlad.

Rhennir y Nodiadau hyn yn 8 adran.

Mae **Adran 1** (tudalennau CGN2 i CGN6) yn esbonio sut i gwblhau'r Tudalennau Enillion Cyfalaf.

Mae **Adran 2** (tudalen CGN7) yn rhoi arweiniad syml i Dreth Enillion Cyfalaf.

Mae **Adrannau 3 i 8** (tudalennau CGN7 i CGN20) yn rhoi arweiniad manylach.

Adran 1- Cyffredinol - Cwblhau Tudalennau CG1 i CG8

Mae'r Tudalennau Enillion Cyfalaf ar gyfer 1999-2000 yn defnyddio fformat ychydig yn wahanol i'r fersiynau a gwblhawyd gennych efallai wrth ddatgan enillion trethadwy, neu wrth wneud cais am golledion caniataol, mewn blynyddoedd cynharach. Cyn i chi ddechrau cwblhau'r Tudalennau Enillion Cyfalaf eleni hwyrach y bydd yn ddefnyddiol i chi ymgyfarwyddo â gofynion y Tudalennau hyn drwy ddarllen y nodiadau hyn.

Os mai hwn yw'r tro cyntaf i chi lenwi'r Tudalennau Enillion Cyfalaf, bydd y nodiadau ar dudalennau CGN9 i CGN14 yn eich helpu i ddeall pa wybodaeth y bydd angen i chi ei rhoi i'ch Arolygydd Treth. Os bydd unrhyw bwyntiau nad ydych yn eu deall gofynnwch i'ch swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth am gymorth.

Ar gyfer 1999-2000 mae'r Tudalennau Enillion Cyfalaf wedi'u rhannu yn ddwy adran. Os oedd pob un o'r trafodion y gwnaethoch ymgymryd â hwy ym 1999-2000 yn cynnwys cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd (ar gyfer diffiniad o gyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd at y diben hwn, gweler y nodyn ar waelod y golofn nesaf), a

- nid yw rhyddhad meinhau (gweler Tudalen CGN17) ar gael i chi ostwng unrhyw un o'r enillion a ddatgelwyd, neu
- nid ydych yn gwneud cais am unrhyw ryddhad treth, heblaw lwfans mynegeio, a fydd hwyrach yn gostwng eich enillion

cewch ddefnyddio'r grid syml ar Dudalen CG1 i gofnodi eich trafodion.

Os defnyddiwch Dudalen CG1 gallwch anwybyddu Tudalennau CG2 i CG6 o'r Tudalennau Enillion Cyfalaf. Fodd bynnag, mae'n rhaid i chi lenwi Tudalen CG8 bob tro unwaith y byddwch wedi cwblhau Tudalen CG1. Gallwch hefyd ddefnyddio Tudalen CG7 os nad oes digon o le yng Ngholofn G ar Dudalen CG1 ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol yr hoffech ei chynnwys.

Fodd bynnag, os gwnaethoch ymgymryd â nifer o drafodion yn cynnwys y cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd (gweler isod) ac asedion eraill hefyd, er enghraifft cyfranddaliadau nas dyfynnwyd neu dir ac eiddo, mae'n rhaid i chi ddefnyddio Tudalennau CG2 a CG3 (a CG4 i CG7 fel y bo'n briodol) i gofnodi pob un o'ch trafodion. Mae'n rhaid i chi beidio â defnyddio cyfuniad o Dudalen CG1 ar gyfer trafodion sy'n ymwneud â chyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd a Thudalennau CG2 a CG3 i gofnodi eich trafodion eraill. Er y bydd angen i chi ystyried rhai blychau ychwanegol ar Dudalen CG3 efallai, bydd hyn yn sicrhau y caiff unrhyw golledion caniataol a wnaethoch eu dyrannu fel y gallwch fanteisio i'r eithaf arnynt o dan y rheolau rhyddhad meinhau (gweler tudalen CGN17 a *Thaflen Gymorth IR279: Taper Relief*). Ni fydd yn ofynnol i chi roi unrhyw wybodaeth ychwanegol ar Dudalennau CG4 i CG7 wrth gwblhau eich Tudalennau Enillion Cyfalaf ar gyfer eich trafodion cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd er y bydd yn rhaid i chi gofnodi'r trafodion hynny ar Dudalennau CG2 i CG3 yn lle Tudalen CG1.

I grynhoi, lluniwyd Tudalen GC1 er mwyn helpu i symleiddio'r gofynion cofnodi i drethdalwyr sydd wedi ymgymryd â thrafodion cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd syml yn unig (gweler isod). Os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom i egluro unrhyw un o'r trafodion hyn, byddwn yn ysgrifennu atoch. Ar gyfer trafodion sy'n ymwneud ag asedion heblaw cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd, neu gymysgedd o gyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd ac asedion eraill, mae'n rhaid i chi ddefnyddio Tudalennau CG2 a CG3 bob tro (a CG4 i CG7 fel y bo'n briodol). Rydym yn gofyn am ragor o wybodaeth mewn perthynas â thrafodion sy'n ymwneud ag asedion heblaw cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd gan fod y rhain yn aml yn fwy cymhleth ac angen eu harolygu'n fanylach. Er enghraifft, efallai y byddwch yn gwneud cais am amryw o fathau o ryddhad treth sy'n gostwng eich enillion trethadwy, neu efallai y byddwch wedi defnyddio amcangyfrif neu brisiad o fewn eich cyfrifiad ac efallai y bydd angen i chi wirio cywirdeb yr amcangyfrif neu'r prisiad gyda'n prisiwyr arbenigol (gweler tudalen CGN13). Unwaith eto os bydd angen rhagor o wybodaeth arnom i egluro unrhyw un o'ch trafodion, byddwn yn ysgrifennu atoch.

Os ydych o'r farn y bydd angen mwy nag un copi o Dudalen CG1, neu Dudalennau CG2 a CG3 arnoch (ynghyd â Thudalennau CG4 i CG6 fel y bo'n briodol), i roi manylion am bob un o'ch gwarediadau, gwnewch lungopïau cyn gwneud unrhyw gofnodion. Rhowch eich enw a'ch cyfeirnod treth ar bob llungopi. Os defnyddiwch lungopïau o'r Tudalennau, anwybyddwch y blychau wedi'u rhifo ar bob dalen heblaw'r un derfynol. Ar y ddalen derfynol gwnewch yn siwr fod y cofnodion yn y blychau yn adlewyrchu cyfansymiau'r holl drafodion a gwmpesir gan dudalennau'r llungopïau. Fel arall, cewch anfon atodlenni wedi'u cynhyrchu ar gyfrifiadur yn lle Tudalen CG1, neu Dudalennau CG2 a CG3 (ynghyd â Thudalennau CG4 i CG6 fel y bo'n briodol), ar yr amod eu bod yn dilyn ffurf y copi papur o'r Tudalennau hyn.

Mewn rhai sefyllfaoedd, os derbyniwch swm o ran ased sy'n fach o'i gymharu â gwerth yr ased hwnnw, efallai na chaiff y dderbynneb ei thrin fel gwarediad. Mae mwy o fanylion ar sut y gall hyn fod yn gymwys, a sut i gwblhau Tudalen CG1 neu Dudalennau CG2 a CG3 yn yr achosion hyn, o dan y pennawd 'Gwerthu' ar dudalen CGN8.

Ni fyddwch fel arfer yn gorfod cyflwyno unrhyw gyfrifiadau neu ddogfennau ategol eraill gyda'ch Ffurflen Dreth. Os byddwch am ddarparu mwy o wybodaeth er mwyn dangos sut y cyfrifwyd eich ffigurau, rhowch y manylion ar Dudalen CG7. Os nad oes digon o le ac rydych am ddarparu mwy o wybodaeth neu gyfrifiadau mae croeso i chi wneud hynny. Os byddwch yn darparu cyfrifiadau mae'n rhaid i chi gwblhau Tudalen CG1 neu Dudalennau CG2 a CG3 o hyd (ynghyd â thudalennau CG4 i CG6 fel y bo'n briodol.)

Diffiniad o gyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd ar gyfer y Tudalennau Enillion Cyfalaf

At ddibenion y Tudalennau Enillion Cyfalaf mae 'cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd' sydd gan gwmni yn golygu unrhyw gyfranddaliadau neu warannoedd pan oedd dyfynbris ar gael ar Restr Swyddogol Ddyddiol Cyfnewidfa Stoc Llundain (SEDOL) drwy gydol y cyfnod yr oeddech yn eu dal (er enghraifft, cyfranddaliadau mewn cwmnïau FTSE100).

Os cawsoch gyfranddaliadau neu warannoedd o ganlyniad i gyfnewid cyfranddaliadau, neu ad-drefniant cwmni arall (gweler CGN9) ac ni wnaeth y cyfranddaliadau na'r gwarannoedd a ddaliasoch yn wreiddiol ymddangos ar SEDOL drwy gydol y cyfnod yr oeddech yn eu dal, ni ddylech ddefnyddio Tudalen CG1 i gofnodi eich enillion a'ch colledion. Yn lle hynny, dylech gofnodi pob un o'ch trafodion ar Dudalennau CG2 a CG3. Yn yr un modd, os oes gan eich cyfranddaliadau neu warannoedd ddyfynbris ar gyfnewidfa stoc dramor ond heb eu dyfynnu ar SEDOL chwaith, dylech ddefnyddio Tudalennau CG2 a CG3 i gofnodi pob un o'ch trafodion.

Llenwi Tudalen CG1

Llenwch Dudalen CG1 i roi manylion am eich gwarediadau yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000. Dylid defnyddio'r dudalen hon dim ond os oedd **pob un** o'ch trafodion dan sylw yn cynnwys cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd (gweler tudalen CGN2) ac:

- nid yw rhyddhad meinhau (gweler tudalen CGN17) ar gael i chi ostwng unrhyw un o'r enillion a ddatgelwyd; ac
- nid ydych yn gwneud cais am unrhyw ryddhad treth, heblaw lwfans mynegeio, a fydd hwyrach yn gostwng unrhyw un o'ch enillion.

Os defnyddiwch Dudalen CG1, gallwch anwybyddu Tudalennau CG2 i CG6 o'r Tudalennau Enillion Cyfalaf. Mae'n rhaid i chi lenwi Tudalen CG8 bob tro unwaith y byddwch wedi cwblhau Tudalen CG1. Mae Tudalen CG7 yn darparu lle ar gyfer unrhyw wybodaeth ychwanegol y bydd angen i chi ei rhoi.

Os na fyddwch yn dod o fewn y terfynau a ddisgrifir uchod mae'n rhaid i chi ddefnyddio Tudalennau CG2 a CG3 (ynghyd â Thudalennau CG4 i CG6 fel y bo'n briodol) i gofnodi pob un o'ch trafodion. **Mae'n rhaid i chi beidio â defnyddio cyfuniad o Dudalen CG1 ar gyfer trafodion sy'n ymwneud â chyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd a Thudalennau CG2 a CG3 i gofnodi eich trafodion eraill**.

Colofn A

Yn y golofn hon rhowch fanylion am bob gwarediad o gyfranddaliadau a ddyfynnwyd. Rhowch enw'r cwmni, y math o gyfranddaliadau neu warannoedd yr ydych wedi'u gwaredu a nifer y cyfranddaliadau, neu wynebwerth y gwarannoedd a waredwyd gennych.

Os gwnaethoch unrhyw enillion trethadwy neu golledion caniatáol ym 1999-2000 heb waredu, dylech gynnwys manylion yr enillion a'r colledion hyn yn y rhestr. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, oherwydd bod ennill a ohiriwyd yn cael ei drin fel un a wnaed ym 1999-2000 (gweler yr adran ar enillion o flynyddoedd cynharach ar dudalen CGN9). Mae'n rhaid i chi nodi natur y digwyddiad sy'n achosi i'r ennill ddod yn drethadwy a'r ennill penodol sydd bellach yn dod yn drethadwy. Os oes gennych enillion a briodolir i chi fel setlwr neu fuddiolwr, gweler tudalen CGN9.

Colofn B

Ticiwch y blwch yn y golofn hon ar unryw res lle rydych wedi defnyddio amcangyfrif neu brisiad wrth gyfrifo'r ennill neu'r golled. Er enghraifft, bydd angen defnyddio prisiadau pan fydd ased a waredwyd gennych:

- wedi ei gaffael oddi wrth berson cysylltiedig, neu wedi ei waredu iddo (gweler tudalen CGN13), **neu**
- wedi ei ddal gennych ar 31 Mawrth 1982 (gweler y nodiadau ar adseilio sy'n dechrau ar dudalen CGN13).

Rhowch fanylion pam eich bod wedi defnyddio amcangyfrif neu brisiad yng Ngholofn G, neu os na fydd digon o le, defnyddiwch Dudalen CG7.

Colofn C

Ticiwch y blwch yn y golofn hon ar unrhyw res lle rydych yn cofnodi eich bod wedi gwaredu unrhyw gyfranddaliadau neu warannoedd yr oeddech yn berchen arnynt, neu yr ystyrir y buoch yn berchen arnynt, ar 31 Mawrth 1982.

Colofn D

Yng Ngholofn D rhowch ddyddiad gwaredu'r cyfranddaliadau neu'r gwarannoedd a arweiniodd at ennill trethadwy neu golled ganiatáol. Os mai'r dyddiad gwaredu oedd 5 Mehefin 1999 er enghraifft, dylech ddangos y dyddiad yn y rhes briodol yng Ngholofn D fel '05/06/99'.

Mae tudalennau CGN8 a CGN11 yn egluro pryd bydd gwaredu at ddibenion Treth Enillion Cyfalaf yn digwydd ac ar ba ddyddiad y caiff y gwaredu ei drin fel un sydd wedi digwydd.

Colofn E

Yn y golofn hon rhowch gyfanswm yr elw o waredu a gawsoch neu y byddwch yn ei gael o bob gwarediad. Mae tudalen CGN11 yn egluro beth i'w gynnwys yn elw'r gwaredu.

Colofn F

Yn y golofn hon rhowch yr ennill neu'r golled net o bob trafodyn, ar ôl i lwfans mynegeio, lle bo'n briodol (gweler tudalen CGN14), gael ei ddidynnu. Rhowch gromfachau o amgylch unrhyw golledion i'w gwahaniaethu oddi wrth enillion.

Mae yna ganllaw syml i Dreth Enillion Cyfalaf, gan gynnwys cyfrifiad enghreifftiol, yn Adran 2. Mae Adran 4 yn egluro'n fanylach sut i gyfrifo enillion a cholledion.

Colofn G

Defnyddiwch Golofn G i ddarparu rhagor o wybodaeth.

Er enghraifft:

- os oedd yna drafodion â pherson cysylltiedig (gweler tudalen CGN13)
- pam y defnyddiwyd amcangyfrifon neu brisiadau (gweler tudalen CGN13)
- os ydych wedi gwaredu rhan o ddaliad mwy sy'n cynnwys cronfa o gyfranddaliadau neu warannoedd (gweler tudalen CGN15)
- os ydych wedi cyfnewid cyfranddaliadau neu warannoedd wrth ad-drefnu neu feddiannu cwmni (gweler tudalen CGN9)
- os ydych yn dewis adseilio (gweler tudalen CGN13).

blwch F1 Adiwch gyfanswm pob un o'ch enillion yng Ngholofn F. Rhowch y cyfanswm ym mlwch F1.

blwch F2 Adiwch gyfanswm pob un o'ch enillion yng Ngholofn F. Rhowch y cyfanswm ym mlwch F2.

blwch F3 Tynnwch eich colledion ym mlwch F2 o'ch enillion ym mlwch F1. Os bydd eich enillion net yn fwy na £7,100 ewch ymlaen i flwch F4. Os bydd eich enillion net o dan £7,100 ni fydd gennych unrhyw rwymedigaeth i Dreth Enillion Cyfalaf ym 1999-2000. Rhowch swm eich enillion net ym mlwch F7 a blwch 8.7 ar Dudalen CG8. Rhowch '0' hefyd ym mlwch 8.8 ar Dudalen CG8. Os oes gennych golled net, bydd angen llenwi'r crynodeb ar Golledion cyfalaf ar Dudalen CG8. Rhowch '0' ym mlwch F7 ac ym mlychau 8.7 ac 8.8 ar Dudalen CG8 hefyd.

blwch F4 Ym mlwch F4 rhowch unrhyw golledion incwm (yn y bôn, colledion masnachu penodol, colledion o osodiadau gwyliau wedi'u dodrefnu, gwariant ôl-derfynu neu ddidyniadau ôl-gyflogaeth - bydd eich swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth yn gallu cadarnhau pa golledion fydd yn gymwys) yr hoffech eu gosod yn erbyn eich enillion trethadwy. Dim ond yr isaf o'r canlynol y dylech ei nodi sef:

- cyfanswm y colledion y gallwch wneud cais amdanynt, **a**
- y swm sydd ei angen i ostwng ffigwr yr enillion, ar ôl gwrthbwyso colledion cyfalaf y flwyddyn, i sero.

blwch F5 Tynnwch eich colledion ym mlwch F4 o'ch enillion ym mlwch F3. Os bydd eich enillion net yn fwy na £7,100 ewch ymlaen i flwch F6. Os bydd yr enillion net o dan £7,100 ni fydd gennych unrhyw rwymedigaeth i Dreth Enillion Cyfalaf ym 1999-2000. Rhowch swm yr enillion net ym mlwch F7 a blwch 8.7 ar Dudalen CG8. Rhowch '0' hefyd ym mlwch 8.8 ar Dudalen CG8.

blwch F6 Tynnwch unrhyw golledion a ddygwyd ymlaen sydd gennych efallai o flwyddyn dreth gynharach. Peidiwch â defnyddio mwy na'r colledion sydd eu hangen i ostwng eich enillion trethadwy i lefel y swm blynyddol a eithrir, sef £7,100. Cofiwch ddiweddaru crynodeb y colledion Cyfalaf ar Dudalen CG8.

blwch F7 Tynnwch eich colledion o flwch F6 o'ch enillion ym mlwch F5 gan roi'r cyfanswm ym mlwch F7. Copïwch y ffigwr hwn i gyfanswm y blwch enillion trethadwy, sef blwch 8.7, ar Dudalen CG8.

Llenwi Tudalennau CG2 a CG3

Llenwch Dudalennau CG2 a CG3 i roi manylion am eich gwarediadau yn y flwyddyn a ddaeth i ben 5 Ebrill 2000 oni bai fod pob un o'ch trafodion mewn cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd ac roeddech yn gallu cwblhau Tudalen CG1 yn lle hynny (gweler 'Llenwi Tudalen CG1' ar dudalen CGN3). Os bydd unrhyw un o'r trafodion rydych yn eu cofnodi ar Dudalennau CG2 a CG3 yn ymwneud ag asedion heblaw cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd mae'n rhaid i chi roi'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani hefyd, lle bo'n briodol, ar Dudalennau CG4 i CG6. Fodd bynnag, os bydd y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar Dudalennau CG4 i CG6 eisoes wedi'i rhoi mewn cais am ryddhad daliol rhoddion (gweler *Taflen Gymorth IR295: Relief for gifts and similar transactions*) neu o ganlyniad i gais i wirio prisiad wedi'r trafodyn (gweler tudalen CGN13) nid oes yn rhaid ei rhoi eto. Bydd y wybodaeth a ddarperir yn helpu i benderfynu a oes angen i ni ofyn rhagor o gwestiynau manylach i chi am eich Ffurflen Dreth. Bydd Tudalennau wedi'u cwblhau'n llawn yn ein helpu i osgoi gwneud ymholiadau diangen.

ColofnA

Yn y golofn hon rhowch fanylion am bob ased yr ydych wedi ei waredu. Er enghraifft, os ydych wedi gwaredu tir neu eiddo, cyfranddaliadau neu warannoedd nas dyfynnwyd neu asedion eraill (heblaw cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd) rhowch ddisgrifiad byr o'r ased ar un llinell. Dylech groesgyfeirio pob cofnod wedyn â'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani, fel y bo'n briodol, ar Dudalennau CG4, CG5 neu CG6.

Os ydych wedi gwaredu cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd, rhowch enw'r cwmni, y math o gyfranddaliadau neu warannoedd a waredwyd gennych a faint o gyfranddaliadau neu warannoedd a waredwyd gennych ar dudalen CG2. Ni ofynnir am ragor o wybodaeth ar y ffurflen hon ar gyfer y trafodion hyn.

Rydym wedi rhannu'r adran ar gyfer cofnodi eich enillion yn ddwy. Gwnawn hyn fel y gallwch gofnodi faint o ryddhad meinhau y mae gennych hawl iddo ar bob ennill a wnewch. Defnyddiwch yr adran gyntaf 'Enillion ar asedion heb ddefnydd cymysg (busnes a di-fusnes) bob amser pan fyddwch wedi gwaredu asedion a oedd yn asedion busnes yn gyfan gwbl, gweler tudalen CGN17, neu'n asedion di-fusnes yn gyfan gwbl. Defnyddiwch yr ail adran 'Enillion ar asedion â defnydd cymysg (busnes a di-fusnes) pan fyddwch wedi gwaredu asedion a oedd yn asedion busnes yn rhannol ac yn asedion nad oeddynt yn rhannol yn ymwneud â busnes. Yng ngholofn H bydd angen i chi rannu'r enillion hyn yn ennill ased busnes ac ennill ased nad yw'n ymwneud â busnes er mwyn cofnodi faint o ryddhad meinhau, os o gwbl, sy'n ddyledus ar bob rhan.

Os nad ydych yn preswylio yn y DG ac rydych wedi gwaredu asedion y tu allan i'r DG y mae'r sail taliad yn gymwys iddynt, dylech gynnwys manylion asedion o'r fath a werthwyd yn y flwyddyn dreth hon neu mewn blwyddyn dreth gynharech lle gwnaed taliadau i'r DG yn y flwyddyn dreth hon.

Os gwnaethoch unrhyw enillion trethadwy neu golledion caniataol ym 1999-2000 heb waredu, dylech gynnwys manylion yr enillion a'r colledion hynny yn y rhestr. Gallai hyn ddigwydd, er enghraifft, am fod ennill gohiriedig yn cael ei drin fel petai wedi'i wneud ym 1999-2000 neu ennill a gronnodd ym 1998-99 pan gawsoch eich ystyried yn 'berson di-breswyl dros dro' (gweler yr adran ar enillion o flynyddoedd cynharach ar dudalen CGN9) neu pan na fydd yn bosibl adfer benthyciad i fasnachwr (gweler yr adran ar warediadau ar dudalen CGN8). Mae'n rhaid i chi nodi natur y digwyddiad sy'n achosi i'r ennill fynd yn drethadwy a'r ennill penodol sydd bellach yn mynd yn drethadwy. Os oes gennych enillion a briodolwyd i chi fel setlwr neu fuddiolwr, gweler 'Enillion priodoledig a blwch 8.4' ar dudalen CGN6.

Colofn AA

Ymhob rhes o'r golofn hon rhowch y llythyr adnabod (D, N, T, neu A) sy'n cyfateb i'r ased(ion) a nodwyd ymhob un o'r rhesi. Rhowch gofnod ar gyfer pob trafodyn (trafodion sy'n ymwneud ag ennill a cholled) yng Ngholofn A.

Ar gyfer trafodion mewn:

- cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd, rhowch **D**
- cyfranddaliadau neu warannoedd nas dyfynnwyd, rhowch **N**
- tir ac eiddo, rhowch **L**
- asedion eraill (er enghraifft, ewyllys da, rhowch **A**

Dylai cyfranddaliadau neu warannoedd:

- yr oedd ganddynt ddyfynbris ar gyfnewidfa stoc dramor ac nas rhestrwyd hefyd ar SEDOL (gweler tudalen CGN3) **neu**
- a gaffaelwyd o ganlyniad i gyfnewid cyfranddaliadau, neu ad-drefnu cwmni arall (gweler tudalen CGN9), ac nid ymddangosodd y cyfranddaliadau neu'r gwarannoedd a ddaliwyd gennych yn wreiddiol ar SEDOL drwy gydol y cyfnod y daliwyd hwy gennych, gael eu cofnodi yng Ngholofn AA fel '**N**'.

Peidiwch ag anghofio rhoi'r wybodaeth ychwanegol y gofynnwyd amdani mewn perthynas â phob trafodyn unigol ar:

- Tudalen CG4 ar gyfer trafodion mewn cyfranddaliadau neu warannoedd nas dyfynnwyd **(N)**
- Tudalen CG5 ar gyfer tir ac eiddo **(T)**
- Tudalen CG6 ar gyfer asedion eraill **(O).**

Fodd bynnag, os bydd y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar Dudalennau CG4 i CG6 eisoes wedi'i rhoi mewn cais am ryddhad daliol rhoddion (gweler *Taflen Gymorth IR295: Relief for gifts and similar transactions*) neu o ganlyniad i gais i wirio prisiad wedi'r trafodyn (gweler tudalen CGN13) nid oes yn rhaid ei chynnwys eto.

Colofn B

Ticiwch y blwch yn y golofn hon ar unrhyw res lle rydych wedi defnyddio amcangyfrif neu brisiad wrth gyfrifo'r ennill neu'r golled. (Dylech gynnwys unrhyw brisiadau a ddefnyddiwyd gennych ar Dudalennau CG4 i CG6 - gweler y nodyn ar dudalen CGN13). Er enghraifft, mae angen defnyddio prisiadau pan gafodd ased a waredwyd gennych:

- ei gaffael neu ei werthu i berson cysylltiol (gweler tudalen CGN13), **neu**
- ei ddal gennych ar 31 Mawrth 1982 (gweler y nodiadau ar adseilio sy'n dechrau ar dudalen CGN13).

Colofn C

Ticiwch y blwch yn y golofn hon ar unrhyw res lle rydych yn cofnodi gwaredu ased roeddech yn berchen arno, neu oedd yn cael ei drin fel petaech yn berchen arno, ar 31 Mawrth 1982.

Column D

Mae enillion trethadwy sy'n cronni ym 1999-2000 yn agored i ryddhad meinhau, gweler tudalen CGN17. Fodd bynnag, dim ond yn y flwyddyn hon y bydd rhyddhad meinhau yn ddyledus ar waredu asedion busnes. Diffinnir asedion busnes ar dudalen CGN17.

Os gwnaethoch gaffael yr ased rydych nawr wedi ei waredu ar neu ar ôl 17 Mawrth 1998 dylech nodi yng ngholofn D dyddiad caffael yr ased mewn gwirionedd (gweler tudalen CGN11). Os gwnaethoch gaffael yr ased sydd bellach wedi ei waredu cyn 17 Mawrth 1998 nodwch 16 Mawrth 1998. Dylid nodi'r holl ddyddiadau ar ffurf chwe rhif, er enghraifft, dylid dangos 16 Mawrth 1998 fel '16/03/98'.

Os byddwch wedi gwaredu cyfranddaliadau neu warannoedd a gronnodd dylech nodi'r diweddaraf o 16 Mawrth 1998 a'r dyddiad pan wnaethoch gaffael cyfranddaliadau yn y gronfa am y tro cyntaf. Am fwy o wybodaeth am waredu cyfranddaliadau a gwarannoedd gweler tudalen CGN17, 'Beth am waredu cyfranddaliadau neu warannoedd?' a *Thaflen Gymorth IR284: Shares and Capital Gains Tax*.

Colofn E

Nodwch yng ngholofn E y dyddiad gwaredu ar gyfer pob ased a arweiniodd at ennill trethadwy. Os, er enghraifft, y dyddiad oedd 5 Mehefin 1999 dylech ddangos y dyddiad yn rhes briodol colofn E fel '05/06/99'.

Mae tudalennau CGN8 a CGN11 yn egluro pryd bydd gwaredu at ddibenion Treth Enillion Cyfalaf yn digwydd ac ar ba ddyddiad y caiff eich gwarediad ei drin fel petai wedi digwydd.

Colofn F

Nodwch yn y golofn hon gyfanswm yr enillion o waredu a gawsoch neu y byddwch yn eu cael o bob gwarediad; mae Tudalen CGN11 yn egluro beth i'w gynnwys mewn enillion gwaredu. Os bydd sail taliad yn gymwys, nodwch symiau unrhyw daliadau i'r DG ym 1999-2000 yn unig o enillion gwaredu'r asedion y tu allan i'r DG (p'un a ddigwyddodd y gwaredu ym 1999-2000 neu mewn blwyddyn gynharach).

Colofn G

Pan effeithir ar y gwaredu a roddir ar unrhyw res gan ddewis Treth Enillion Cyfalaf neu gais amdani, neu pan fydd rhyddhad yn ddyledus, dylech roi'r manylion yng ngholofn G. Ar gyfer ceisiadau am ryddhad dylech nodi swm eich cais hefyd. Er enghraifft, efallai y byddwch wedi gwneud cais am ryddhad treiglol, eithriad o dan delerau Cytundeb Trethiant Dwbl, rhyddhad gohirio Cynllun Buddsoddiant Menter neu efallai y bydd hawl gennych i ryddhad ymddeol. Neu efallai y byddwch wedi penderfynu gwneud dewis sy'n effeithio ar y modd y cyfrifir eich enillion neu'ch colledion, megis dewis adseilio (gweler tudalen CGN13). Mae Adran 7 yn disgrifio'r mathau cyffredin o ryddhad a dewis.

Os nad oes gennych ddigon o le, defnyddiwch Dudalen CG7 i roi unrhyw wybodaeth ychwanegol.

Os gwnewch gais am:

- rhyddhad daliol rhoddion (am ffurflen gais gweler *Taflen Gymorth IR295: Relief for gifts and similar transactions)*, **neu**
- rhyddhad gohirio Cynllun Buddsoddiant Menter (mae'r ffurflen gais EIS3 (1998) yn atodedig i'r dystysgrif EIS3 a gewch gan y cwmni, am wybodaeth gweler *Taflen Gymorth IR297: Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax)*

mae'n rhaid i chi atodi'r ffurflen gais swyddogol hefyd.

Ar gyfer ceisiadau am:

- Rhyddhad treiglol ased busnes (am ffurflen gais gweler *Taflen Gymorth IR290: Business asset roll-over relief)*, **neu**
- Rhyddhad gohirio Ymddiriedolaethau Cyfalaf Mentro (am ffurflen gais gweler *Help Sheet IR298: Venture Capital trusts and Capital Gains Tax)*

mae ffurflen gais ddewisol, sy'n nodi'r holl wybodaeth angenrheidiol, yn atodedig i'r Daflen Gymorth briodol. Os na ddefnyddiwch y ffurflenni cais mae'n rhaid i chi roi'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani o hyd er mwyn i'ch cais gael ei ystyried.

Os ydych yn gwneud cais i eithrio o dan delerau Cytundeb Trethiant Dwbl, rhowch fanylion am y diriogaeth lle y mae'r ennill i fod i gael ei drethu, a'r amgylchiadau er mwyn gwneud cais ar dudalen CG7.

Nid oes yn rhaid i chi nodi unrhyw beth yng Ngholofn G oherwydd eich bod wedi gwneud cais am lwfans mynegeio. Dylid didynnu hwn wrth gyfrifo'r ffigwr yng ngholofn H. Ni allwch ddefnyddio'r lwfans mynegeio i droi ennill yn golled na chynyddu eich colled (gweler tudalen CGN15).

Colofn H

Nodwch yn rhan **Enillion** y golofn hon yr ennill net o bob gwarediad, ar ôl rhyddhad, ond cyn ystyried **colledion a rhyddhad meinhau**.

Er enghraifft, mae gennych ennill trethadwy o £50,000 ar ôl lwfans mynegeio, ond cyn colledion a rhyddhad meinhau. Yng Ngholofn G rydych yn rhoi manylion am y cais am ryddhad gohirio Cynllun Buddsoddiant Menter o £30,000. Yng ngholofn H dylech roi'r ennill net o £20,000 yn unig.

Os byddwch wedi cofnodi enillion yn rhesi 9 a 10 o dan yr adran 'Enillion ar asedion â defnydd cymysg (busnes a di-fusnes)' a gwnewch yn siwr eich bod yn rhannu'r enillion hynny yn enillion asedion busnes ac asedion nad ydynt yn ymwneud â busnes fel y gallwch weithio allan faint o ryddhad meinhau sy'n ddyledus ar ran yr ased busnes; gweler *Taflen Gymorth IR279: Taper relief.*

Dylai colled sy'n deillio o waredu gael ei nodi yn adran **Colledion** Colofn H. Mae adran 4 yn egluro sut i gyfrifo enillion a cholledion. Mae Adran 7 yn disgrifio rhai o'r mathau cyffredin o ryddhad. Os bydd y sail taliad un gymwys, nodwch symiau unrhyw daliadau i'r DG yn unig o ran enillion o waredu asedion y tu allan i'r DG (p'un a ddigwyddodd gwaredu ym 1999-2000 neu mewn blwyddyn gynharach).

Nawr rhowch gyfanswm eich enillion a'ch colledion ym mlychau 8.1 ac 8.2. Mae'n rhaid i chi gwblhau Tudalen CG3 i gyd:

- os oes gennych enillion ym mlwch 8.1 sy'n fwy na £7,100 ac os na fydd unrhyw golledion ar gael i chi; **neu**
- mae eich enillion ar ôl didynnu colledion o'r flwyddyn (a lle bo'n gymwys colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach) yn fwy na £7,100.

Dim ond y blychau cyfansymiau (blychau 8.3 i 8.7) ar dudalen CG3 y mae'n rhaid i chi eu cwblhau (gallwch anwybyddu gweddill Tudalen CG3) ar yr amod nad oes gennych unrhyw enillion wedi'u priodoli i chi, gweler Tudalen CGN6, neu golledion incwm ar gael i'w gosod yn erbyn eich enillion, ac rydych yn disgyn i un o'r canlynol:

- mae eich enillion (blwch 8.1) ar ôl didynnu colledion y flwyddyn (blwch 8.2) yn £7,100 neu lai. (Os felly nid oes gennych unrhyw rwymedigaeth i Dreth Enillion Cyfalaf ym 1999-2000, hyd yn oed os bydd rhyddhad meinhau ar gael i chi. O dan yr amgylchiadau hyn, gallwch nodi swm eich enillion net (blwch 8.1 *minws* 8.2) ym mlwch 8.3, blwch cyfanswm yr enillion trethadwy a blwch 8.7 ar Dudalen CG8. Rhowch O (sero) ym mlychau 8.4 i 8.6. Oni fydd angen rhoi rhagor o wybodaeth angenrheidiol yn Nhudalennau CG4 i CG6 gallwch fynd yn eich blaen i Dudalen CG8.)
- mae eich enillion ar ôl didynnu colledion y flwyddyn yn fwy na £7,100 ond mae gennych ddigon o golledion wedi'u dwyn ymlaen, i ostwng yr enillion hynny i £7,100. (Os felly unwaith eto nid oes gennych unrhyw rwymedigaeth i Dreth Enillion Cyfalaf ym 1999-2000 hyd yn oed os yw'r rhyddhad meinhau ar gael i chi. O dan yr amgylchiadau hyn, gallwch nodi swm y colledion sydd eu hangen i ostwng eich enillion i £7,100 ym mlwch 8.6, blwch cyfanswm yr enillion trethadwy, a blwch 8.7 ar Dudalen CG8. Oni fydd angen rhoi rhagor o wybodaeth angenrheidiol yn Nhudalennau CG4 i CG6 gallwch fynd yn eich blaen i Dudalen CG8.)
- mae eich colledion caniataol ym mlwch 8.2 yn fwy na'ch enillion trethadwy ym mlwch 8.1. (Gallwch nodi '0' (sero) ym mlychau 8.3 i 8.6, blwch cyfanswm yr enillion trethadwy a blwch 8.7 ar Dudalen CG8. Rhowch unrhyw wybodaeth bellach angenrheidiol yn Nhudalennau CG4 i CG6 ac yna llenwch weddill Tudalen CG8, fel y bo'n briodol.)

Os bydd gennych unrhyw enillion o ymddiriedolwyr a briodolir i chi fel setlwr neu fuddiolwr, neu golledion incwm sydd ar gael i'w gosod yn erbyn eich enillion, neu os ydych yn ansicr a ydych yn disgyn i un o'r sefyllfaoedd penodol a ddisgrifir uchod, dylech gwblhau y Dudalen CG3 gyfan bob amser.

Colofn I

Os oedd yr ased a waredwyd yn ased busnes neu'n un a ddefnyddiwyd yn rhannol at ddibenion busnes yn ystod cyfnod eich perchenogaeth a oedd yn syrthio ar ôl 5 Ebrill 1998, gweler tudalen CGN17, dylech nodi 'Bus' yn rhes briodol/rhesi priodol y golofn hon.

Colofn J

Nodwch yn erbyn pob ennill unigol y gyfradd ganrannol feinhau sy'n briodol i'r cyfnod dal cymwys ar gyfer yr ased a waredwyd. Dangosir y cyfraddau canrannol yn y tabl ar dudalen CGN17.
Wrth grynhoi, os oedd yr ased yn ased busnes a gaffaelwyd

- cyn 17 Mawrth 1998 ac a waredwyd ym 1999-2000, canran yr ennill trethadwy fydd 85%;
- ar neu wedi 6 Ebrill 1998 ac a waredwyd yn ystod 1999-2000 ar ben-blwydd cyntaf ei gaffael neu wedi hynny, canran yr ennill trethadwy fydd 92.5%.

Bydd yr holl warediadau eraill sy'n syrthio ym 1999-2000 yn drethadwy yn llawn (hynny yw, y gyfradd i'w nodi fydd 100%).

Colofn K a blychau 8.5 ac 8.6

Ceir rheolau arbennig ar gyfer dyrannu eich colledion cyfalaf caniataol yn erbyn enillion trethadwy, gweler tudalen CGN10. Mae'r rheolau hyn yn sicrhau eich bod yn defnyddio eich colledion yn y ffordd fwyaf buddiol fel bod yr enillion sy'n gymwys ar gyfer y cyfraddau lleihad meinhau mwyaf yn parhau'n drethadwy. Os ydych yn gwrthbwyso colledion a ddygwyd ymlaen o flynyddoedd cynharach dim ond digon o golledion i ostwng eich enillion trethadwy i lefel y swm blynyddol a eithrir, gweler tudalen CGN6. Fodd bynnag, os ydych wedi priodoli enillion a cholledion cyfalaf hefyd, gweler 'Sut y caniateir colled' ar dudalen CGN10.
Yng ngholofn K2 dylech nodi manylion unrhyw golledion masnachu, colledion o osodiadau gwyliau wedi'u dodrefnu, gwariant ôl-derfynu neu ddidyniadau ôl-gyflogaeth yr ydych am wneud cais amdanynt yn erbyn enillion trethadwy. Dylech nodi yr isaf o:

- cyfanswm y colledion y gallwch wneud cais amdanynt, a
- y swm sy'n ofynnol i ostwng ffigwr yr enillion, ar ôl gwrthbwyso colledion cyfalaf y flwyddyn, i sero.

Nawr dyrannwch eich colledion gan ddechrau gyda colofn K1, yna ystyriwch golofn K2 ac yn olaf golofn K3. Dylid dyrannu colledion yn gyntaf yn erbyn enillion trethadwy gyda'r gyfradd ganrannol uchaf a ddangosir yng ngholofn J. Os bydd colledion ar gael i chi o hyd ar ôl eu gosod yn erbyn yr enillion hyn, dylech osod y colledion sy'n weddill yn erbyn yr enillion sy'n weddill.

Enghraifft

Mae gennych ddau ennill yng ngholofn H:

Ennill 1 £20,000; lle mae'r gyfradd ganrannol yng Ngholofn J yn 92.5%
Ennill 2 £10,000; lle mae'r gyfradd ganrannol yng Ngholofn J yn 100%

Mae gennych golled ganiataol a ddygwyd ymlaen o £17,000.

Yn gyntaf dylech ddyrannu yng ngholofn K3, £10,000 o'ch colled i Ennill 2 gan fod yr ennill hwn yn drethadwy ar 100%. Yna dyrannwch y £7,000 o'ch colled sy'n weddill yng ngholofn K3 i Ennill 1 gan mai dim ond 92.5% o'r ennill hwn sy'n drethadwy.

Os oes gennych nifer o enillion a cholledion dylech ystyried pob ennill yn ei dro a dyrannu colledion fel bod yr enillion a ddangosir gyda'r canrannau lleiaf yng ngholofn J yn parhau'n drethadwy. Os yw eich colledion caniataol yn fwy na'ch enillion trethadwy, gallwch gario'r colledion sydd dros ben ymlaen i'w gosod yn erbyn enillion a wnewch mewn blynyddoedd i ddod. Peidiwch ag anghofio llenwi'r blychau crynhoi'r golled gyfalaf ar Dudalen CG8.

Rhowch gyfanswm eich colledion y gwneir cais amdanynt yng ngholofnau K2 ac K3 a nodwch y symiau ym mlychau 8.5 ac 8.6.

Ceir rheolau pellach ar gyfer dyrannu 'colledion rhwystredig'. Colledion a gododd wrth waredu asedion i bobl gysylltiedig yw colledion rhwystredig neu pan fydd ymddiriedolwyr yn trosglwyddo colledion i chi ar ôl 15 Mehefin 1999 pan oedd hawl absoliwt gennych i eiddo setledig. Dim ond yn erbyn enillion o fathau penodol y gellir gosod y colledion hyn (gweler tudalen CGN10).

Colofn L

Tynnwch yr holl golledion y gwneir cais amdanynt yng ngholofnau K1, K2 ac K3 o'r enillion trethadwy a nodwyd yng ngholofn H. Dylai unrhyw enillion net sy'n parhau'n drethadwy gael eu nodi yn y rhesi priodol yng ngholofn L.

Colofn M a blwch 8.3

Dylai pob ennill sy'n parhau'n drethadwy ar ôl i golledion gael eu gwrthbwyso yng ngholofn L gael eu lluosi nawr gan y gyfradd feinhau sy'n briodol i'r ennill hwnnw. Mae'r gyfradd feinhau yng ngholofn J. Er enghraifft, os oedd ennill yng ngholofn L yn £20,000 ar ôl i golledion gael eu gwrthbwyso a'r gyfradd feinhau oedd 92.5% yna yr ennill wedi'i feinhau i'w nodi yng Ngholofn M fydd £18,500 (£20,000 x 92.5%). Os bydd gennych fwy nag un ennill yng ngholofn L gweithiwch allan pob ennill wedi'i feinhau yn ei dro gan nodi'r holl ffigurau yng ngholofn M wrth i chi fynd yn eich blaen.

Adiwch yr holl enillion yng ngholofn M a nodwch y cyfanswm ym mlwch 8.3.

Enillion priodoledig a blwch 8.4

Nodwch yn rhesi 11 a 12 ar Dudalen CG3 unrhyw enillion ymddiriedolwyr a briodolir i chi fel setlwr neu fuddiolwr ymddiriedolaethau preswyl y DG (rhes 11) neu ymddiriedolaethau di-breswyl y DG (rhes 12). Ar Dudalen CG7 rhowch enw'r ymddiriedolaeth(au) ac ar ba sail y gwnaed y priodoliad(au) i chi. Adiwch yr holl enillion priodoledig a rhowch y cyfanswm ym mlwch 8.4.

Cyfanswm yr enillion trethadwy

Add together all of your tapered chargeable gains from box 8.3 and any attributed gains from box 8.4 and enter the total in the total taxable gains box.

Llenwi Tudalennau CG4 i CG6

Os bydd y trafodion a roesoch ar Dudalennau CG2 a CG3 yn ymwneud â gwaredu asedion sy'n gysylltiedig â:

- cyfranddaliadau neu warannoedd nas dyfynnwyd (a gofnodwyd yng ngholofn AA fel 'N'), **neu**
- tir ac eiddo (a gofnodwyd yng ngholofn AA fel 'T'), **neu**
- asedion eraill (heblaw cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnwyd) (a gofnodwyd yng ngholofn AA fel 'A')

mae'n rhaid i chi roi'r wybodaeth ychwanegol mewn perthynas â phob trafodyn unigol ar Dudalen CG4, CG5 neu CG6.

Mae lle ar bob Tudalen ar gyfer manylion am ddau drafodyn. Os oes gennych fwy na dau drafodyn o bob math, llungopïwch y Dudalen cyn cwblhau ac **anfonwch pob un o'ch Tudalennau wedi'u cwblhau ynghyd â'ch Tudalennau Enillion Cyfalaf**. Fodd bynnag, os bydd y wybodaeth y gofynnwyd amdani ar Dudalennau CG4 i CG6 eisoes wedi ei rhoi mewn cais am ryddhad daliol rhoddion (gweler *Taflen Gymorth IR295: Relief for gifts and similar transactions*) neu o ganlyniad i gais i wirio prisiad wedi'r trafodyn (gweler tudalen CGN13) ni fydd angen ei chynnwys eto.

Bydd y wybodaeth hon yn fy helpu i arolygu eich Ffurflen Dreth ac yn osgoi gorfod gofyn yn ddiangen i chi am ragor o fanylion. Yn achlysurol bydd angen gwybodaeth ychwanegol arnaf. Byddaf yn ysgrifennu ac yn gofyn i chi am hyn os bydd angen. Os ydych yn ansicr ar unrhyw adeg pa wybodaeth y bydd angen i chi ei rhoi, bydd eich swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth yn gallu eich helpu.

Llenwi Tudalen CG7

Os gofynnir i chi roi gwybodaeth ychwanegol i ategu unrhyw gofnod ar Dudalennau CG1 i CG3, neu os bydd angen rhagor o le arnoch, defnyddiwch y Dudalen hon.

Llenwi Tudalen CG8

blwch 8.7 Rhowch gyfanswm yr enillion trethadwy o flwch F7 ar Dudalen CG1 neu o flwch cyfanswm yr enillion trethadwy ar Dudalen CG3.

blwch 8.8 Nid oes yn rhaid i chi dalu treth ar y £7,100 cyntaf o enillion trethadwy a wnaethoch ym 1999-2000. Cyfeirir at y swm hwn fel eich 'swm blynyddol a eithrir'. Didynnwch £7,100 o'r ffigwr ym mlwch 8.7. Rhowch y canlyniad ym mlwch 8.8. Y ffigwr ym mlwch 8.8 yw swm net yr enillion trethadwy y mae'n rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf arno ar gyfer 1999-2000.

blwch 8.9 Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth am eich bod wedi derbyn, neu am eich bod yn cael eich trin fel petaech wedi derbyn, cyfalaf neu fudd gan unrhyw ymddiriedolaeth ddi-breswyl neu breswyl deublyg. Os felly, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR301: Capital gains on benefits from non-resident and dual resident trusts* i weithio swm y dreth i'w gynnwys ym mlwch 8.9 allan. Rhowch enw'r ymddiriedolaeth (a'r cyfeirnod treth os yw'n hysbys) yn y blwch 'Gwybodaeth ychwanegol' ar Dudalen CG7. Os nad ydych yn siwr a yw hyn yn berthnasol i chi, gofynnwch i'ch swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

Colledion cyfalaf

blychau 8.10 i 8.14 Mae'r blychau hyn yn crynhoi'r colledion a wnaethoch eleni a'r ffyrdd amrywiol y cawsant eu defnyddio. Ym mlwch 8.10, nodwch gyfanswm yr holl golledion a wnaethoch yn ystod y flwyddyn. Gellir copïo'r ffigwr hwn o flwch 8.2 ar Dudalen CG3 neu flwch F2 ar Dudalen CG1. Os gwnewch gais i osod colledion cyfalaf yn erbyn eich incwm, gweler y nodiadau ar dudalen CGN9, sicrhewch eich bod yn cwblhau blychau 8.13A ac 8.13B yn ogystal a chyfanswm blwch 8.13. Caiff unrhyw golledion sy'n weddill eu cario ymlaen i'w defnyddio yn erbyn enillion o flynyddoedd diweddarach.

blychau 8.15 i 8.17 Mae'r blychau hyn yn crynhoi'r colledion caniataol rydych wedi gwneud cais amdanynt a swm y colledion nas defnyddiwyd i'w cario ymlaen er mwyn eu defnyddio yn erbyn enillion o flynyddoedd diweddarach.

blychau 8.18 a 8.19 Mae'r blychau hyn yn crynhoi'r colledion a wnaethoch mewn blynyddoedd cynharach na chawsant eu defnyddio eto yn erbyn enillion trethadwy. Gweler y nodiadau ar dudalennau CGN10 a CGN11 am fanylion am sut y cânt eu gosod yn erbyn enillion trethadwy.

blychau 8.20 a 8.21 Mae'r blychau hyn yn crynhoi eich colledion i'w cario ymlaen.

Colledion rhwystredig

Colledion rhwystredig yw colledion y gellir eu gosod yn erbyn enillion o fathau penodol yn unig (gweler tudalen CGN10). Mae'n rhaid i chi gadw'r colledion hyn ar wahân i'ch colledion eraill a sicrhau y cânt eu defnyddio ar yr adeg briodol. **Peidiwch â chyfuno'r colledion rhwystredig ar unrhyw adeg â'ch prif gofnod colledion ar Dudalen CG8**.

Adran 2 - Canllaw syml i Dreth Enillion Cyfalaf

Ar ei symlaf mae Treth Enillion Cyfalaf yn dreth a dalwch os gwnewch ennill o waredu rhywbeth sy'n eiddo i chi. Mae rhai pethau, fel eich cartref, eich car neu gyfranddaliadau a ddaliwch mewn PEP neu ISA fel arfer yn ddi-dreth, gweler tudalen CGN8.

Gallech fod yn un o'r nifer o bobl sy'n dal cyfranddaliadau yn uniongyrchol mewn cwmnïau mawr yn y DG. Os gwerthwch y cyfranddaliadau hyn, bydd yn rhaid i chi ystyried a ydych yn gorfod talu Treth Enillion Cyfalaf. Mae'r arweiniad ond yn ymdrin â'r achos lle y prynwyd cyfranddaliadau gennych a restrwyd ar y Gyfnewidfa Stoc mewn un gyfran ar ôl 5 Ebrill 1982 drwy frocer, a lle y gwerthwyd y cyfranddaliadau gennych yn yr un ffordd. Mewn unrhyw achos arall, neu os oes unrhyw amheuaeth gennych, dylech ddarllen y nodiadau yn Adrannau 3 i 7.

Mae angen i chi weithio allan eich ennill drwy ddefnyddio'r rheolau ar gyfer Treth Enillion Cyfalaf. Cyfeirir at hyn fel eich **ennill trethadwy**. Mae'n rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf os bydd eich enillion trethadwy net ar gyfer 1999-2000 yn fwy na £7,100 ar ôl didynnu unrhyw golledion caniatáol neu ryddhad meinhau. Mae Adran 1 ar dudalen CGN2 yn dangos sut i lenwi'r Tudalennau Enillion Cyfalaf.

Felly sut rydych chi'n dechrau? Dyma enghraifft syml. Ym mis Mawrth 1988 prynwyd 3,000 o gyfranddaliadau gennych mewn cwmni am £2.50 yr un. Cododd eich brocer ffi o £100 arnoch. Ar 5 Awst 1999 gwerthwyd y cyfranddaliadau hynny gennych am £4.50 yr un. Cododd eich brocer ffi o £200 arnoch.

Eich ennill yw:		
Pris gwerthu		£13,500
minws ffi'r Brocer		£200
		£13,300
Cost	£7,500	
plws ffi'r Brocer ac unrhyw doll stamp	£100	£7,600
Ennill net		£5,700

Yna mae'n rhaid i chi ddidynnu lwfans mynegeio o'r ennill hwn sy'n addasiad am effaith chwyddiant. Gallwch luosi cost prynu'r cyfranddaliadau (£7,600 yn yr enghraifft) gyda ffigwr a elwir yn **ffactor mynegeio** a didynnu'r swm o ganlyniad o'ch ennill. Mae'r nodiadau sy'n dechrau ar dudalen CGN14 yn esbonio sut i ddod o hyd i'r ffactor mynegeio o'r tabl ar dudalen CGN16. Yn yr achos hwn y ffactor mynegeio yw 0.562 ac felly eich lwfans mynegeio yw:

£7,600 x 0.562 = £4,271

Didynnwch hwn o'ch ennill er mwyn rhoi eich ennill trethadwy i chi. Bydd hwn fel a ganlyn:

Ennill net	£5,700
minws lwfans mynegeio	£4,271
Ennill trethadwy	£1,429

Ceir rhyddhad newydd a elwir yn rhyddhad meinhau a eglurir ar dudalen CGN17. Fodd bynnag, **nid** yw'n gymwys i'r gwerediad hwn. Os mai hwn yw eich unig ennill trethadwy ym 1999-2000 ni fydd unrhyw dreth Enillion Cyfalaf gennych i'w thalu gan eich bod yn gallu gwneud enillion trethadwy o hyd at £7,100 cyn i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf.

Os gwnaethoch golled wrth werthu, mae'r rheolau yn wahanol. Ni allwch ddidynnu unrhyw lwfans mynegeio er mwyn cynyddu'r golled. Ni allwch ychwaith ddidynnu'r cyfan o'ch lwfans mynegeio petai'n troi eich ennill yn golled. Os yw eich lwfans mynegeio yn fwy na'ch ennill, dim ond digon i ostwng eich ennill i sero y gallwch ei ddidynnu.

Mae'n rhaid i golledion a wnewch wrth werthu yn y flwyddyn gael eu didynnu o'ch enillion trethadwy a fynegeiwyd er mwyn penderfynu a yw cyfanswm eich enillion trethadwy yn fwy na £7,100. Gallwch hefyd ddidynnu colledion a wnaethoch wrth werthu mewn blynyddoedd cynharach os nad ydynt eto wedi cael eu didynnu o enillion a wnaethoch mewn blynyddoedd cynharach. Gweler Adran 4 ar 'Gyfrifo enillion a cholledion' am fwy o wybodaeth.

Adran 3 - Cyflwyniad i Dreth Enillion Cyfalaf

Crynodeb syml yw'r nodiadau hyn o gyfraith Treth Enillion Cyfalaf fel y mae'n gymwys mewn rhai achosion cyffredin. Os oes unrhyw amheuaeth gennych a oes gennych unrhyw Dreth Enillion Cyfalaf i'w thalu, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth.

Enillion trethadwy

Gwneir ennill trethadwy pan fydd rhywbeth rydych yn berchen arno (ased):

- yn cael ei waredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol (neu'n cael ei drin fel petai wedi cael ei waredu), **ac**
- wedi cynyddu ei werth ers i chi ei gaffael, neu ers 31 Mawrth 1982 os yw hynny'n ddiweddarach, **neu**
- mae ei werth ar y dyddiad gwaredu yn fwy na'r gwerth gostyngol y tybir eich bod wedi caffael yr ased amdano oherwydd rhyddhad cynharach.

Gallwch hefyd gael eich trin fel petaech yn gwneud ennill mewn amgylchiadau eraill, er enghraifft:

- pan fydd ennill wrth waredu ased yn gynharech wedi cael ei ohirio ac mae digwyddiad arbennig, er enghraifft, gwaredu ased arall, neu dreigl amser, wedi dod â'r cyfnod gohirio i ben, **neu**
- pan fydd gwerth ased rydych yn berchen arno wedi cael ei ostwng o ganlyniad i drosglwyddo hawliau, neu ei ostwng gan unrhyw gyfrwng arall na fyddai ynddo'i hun yn cael ei ystyried fel gwaredu, **neu**
- rydych yn gwaredu ased treuliedig, nad yw wedi gostwng mewn gwerth mor gyflym ag y disgwyliwyd iddo (gweler *Taflen Gymorth IR293: Chattels and Capital Gains Tax*), **neu**
- rydych yn cael swm cyfalaf am eich bod yn berchen ar ased, **neu**
- rydych yn gwaredu ased y gwnaethoch ei gaffael gan eich cymar.

Nid ydych yn talu treth ar y pris a dderbynioch am yr ased, ond ar y cynnydd yn ei werth tra roeddech yn berchen arno yn unig. Os bydd wedi colli gwerth yn ystod yr amser hwnnw, gallwch ddidynnu'r golled honno o unrhyw enillion a wnewch ar asedion eraill yn yr un flwyddyn neu'n ddiweddarach. Mae Adran 4 yn eich helpu i weithio allan eich enillion a'ch colledion.

Efallai y cewch eich trin hefyd fel petaech wedi gwaredu os ydych yn adennill arian rydych wedi cael peth rhyddhad amdano o dan reolau enillion cyfalaf. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR296: Debts and Capital Gains Tax*.

Pwy sy'n talu Treth Enillion Cyfalaf?

Mae'n rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf ar eich holl enillion trethadwy ar ôl didynnu colledion caniatáol (ac, os gwerthoch ased busnes, gan gymhwyso rhyddhad meinhau) os ydych yn preswylio neu fel arfer yn preswylio yn y DG, ac â phreswylfan yn y DG ym 1999-2000.

Os nad oes gennych breswylfan yn y DG, byddwch yn talu treth ar enillion a wnaed wrth waredu asedion a leolir y tu allan i'r DG, dim ond pan fydd yr enillion yn cael eu talu i'r DG (y sail 'taliad'). Mae enillion ar waredu asedion a leolir yn y DG yn drethadwy fel yn y paragraff uchod.

Os nad ydych yn preswylio neu fel arfer yn preswylio yn y DG rydych yn drethadwy ar enillion a wnaed ym 1999-2000 o asedion unrhyw gangen neu asiantaeth yn y DG yr ydych yn masnachu neu'n cyflawni proffesiwn neu alwedigaeth ohonynt. Os gadawsoch y DG ar ôl 5 Ebrill 1999 gallech fod yn drethadwy hefyd ar enillion a wnaed ym 1999-2000 o werediadau ar ôl eich dyddiad gadael. Gallech fod yn drethadwy hefyd ar enillion a wnaed o unrhyw asedion eraill yr oeddech yn berchen arnynt tra roeddech yn preswylio neu fel arfer yn preswylio yn y DG ac a waredwyd ym 1999-2000 os gadawsoch y DG ar ôl 16 Mawrth 1998 ac nad yw eich cyfnod preswylio y tu allan i'r DG yn fwy na phum blwyddyn dreth lawn. Fodd bynnag, ni fydd unrhyw enillion o'r fath yn drethadwy tan y flwyddyn pan fyddwch yn ailddechrau preswylio yn y DG, gweler *Taflen Gymorth IR278: Temporary Non-Residents and Capital Gains Tax*.

Os nad ydych yn siwr a ydych yn preswylio, fel arfer yn preswylio neu â phreswylfan yn y DG, dylech ofyn i'r Llinell Archebu am y Nodiadau ar gyfer y Tudalennau Di-breswyl sy'n esbonio preswylio a phreswylfan yn fanylach, ac, os yw hynny'n briodol, cwblhewch y Tudalennau Di-breswyl.

Asedion

Gall unrhyw ffurf ar eiddo, lle bynnag y caiff ei leoli, fod yn ased sy'n denu Treth Enillion Cyfalaf. Mae'r asedion mwyaf cyffredin yn cynnwys:

- stociau a chyfranddaliadau
- tir ac eiddo
- asedion busnes, fel ewyllys da.

Caiff rhai asedion eu heithrio o Dreth Enillion Cyfalaf. Rhestrir yr asedion cyffredin a eithrir isod.

Gall yr enillion a wneir ar rai asedion gael eu heithrio yn gyfan gwbl neu'n rhannol. Gweler yr esboniad ar fathau o ryddhad cyffredin ar dudalen CGN17.

■ *Asedion a eithriwyd*

Mae gwaredu rhai mathau o ased yn rhydd o Dreth Enillion Cyfalaf.

Os derbyniwch swm o arian neu ased sy'n drethadwy fel rhan o'ch incwm, ni fyddwch yn gorfod talu Treth Enillion Cyfalaf ar y swm hwnnw hefyd.

Caiff y mathau canlynol o ased eu heithrio o Dreth Enillion Cyfalaf:

- ceir preifat
- eiddo personol a nwyddau gwerth £6,000 neu lai pan fyddwch yn eu gwaredu
- Tystysgrifau Cynilion, Bondiau Premiwm a Bondiau Cynilion Cenedlaethol
- enillion a wnaed o fewn Cynllun Ecwiti Personol (PEP) neu Gyfrif Cynilo Unigol (ISA)
- bonws o gyfrifon cynilo arbennig a eithrir (TESSAs)
- Stociau Llywodraeth y DG (giltiau)
- iawndal anaf personol
- arian tramor at eich defnydd personol chi neu ddefnydd personol eich teulu
- polisïau yswiriant bywyd a chontractau blwydd-dâl gohiriedig, oni chawsant eu prynu gan drydydd parti
- enillion betio, loteri neu ennill ar y pyllau
- bonws Cynilo Wrth Ennill terfynol
- iawndal am bensiynau personol a gamwerthwyd a drefnwyd o ganlyniad i gyngor anfanteisiol a roddwyd rhwng 29 Ebrill 1988 a 30 Mehefin 1994.

Os mai'r mathau hyn o ased yw eich unig warediadau, dylech dicio'r blychau 'Na' yng Nghwestiwn 8 ar eich Ffurflen Dreth.

Pe bai ennill o waredu ased yn cael ei eithrio o Dreth Enillion Cyfalaf, fel arfer ni fydd unrhyw golled a wnewch ar yr ased hwnnw yn golled ganiataol. Mae un eithriad. Os bydd colled o'r fath yn deillio o gyfranddaliadau lle mae rhyddhad Treth Incwm y Cynllun Buddsoddiant Menter ynghlwm wrthynt, mae'r golled yn ganiataol, gweler taflen *IR137: Y Cynllun Buddsoddiant Menter,* am ragor o wybodaeth.

Caiff enillion o waredu eiddo personol neu nwyddau, yr oedd pob un yn werth £6,000 neu lai, pan waredwyd hwy gennych eu heithrio. Efallai y gallech ddefnyddio unrhyw golled a wnewch o warediad o'r fath. Ymdrinnir â hyn yn fanylach yn *Nhaflen Gymorth IR293: Chattels and Capital Gains Tax, sydd ar gael o'r Llinell Archebu*.

Yn y rhan fwyaf o achosion, ni fyddwch yn talu treth ar unrhyw ennill pan fyddwch yn gwaredu eich cartref. Gweler yr adran sy'n ymdrin â gwaredu eich cartref ar dudalen CGN17.

■ *Gwaredu*

Mae Treth Enillion Cyfalaf yn daladwy ar enillion o waredu asedion. Bydd gwarediad yn digwydd pan:

- fyddwch yn gwerthu, **neu**
- cewch wared ar rywbeth, **neu**
- byddwch yn cyfnewid ased, **neu**
- derbyniwch swm cyfalaf o berchenogaeth ased, **neu**
- gostyngir gwerth ased rydych yn berchen arno i gynyddu gwerth ased y mae rhyw berson arall yn berchen arno.

Mae swm cyfalaf yn swm nad yw'n rhan o'ch incwm trethadwy.

Gallwch wneud cais i gael eich trin fel petaech wedi gwaredu, pan fydd ased rydych yn berchen arno yn ddibwys bellach o ran gwerth. Gall hyn roi colled i chi y gallwch ei gosod yn erbyn eich enillion.

Os gwaredwch ran o ased yn unig, gallwch ddefnyddio rhan o'r gost wrth gyfrifo eich ennill. Esbonnir gwarediad rhannol yn llawnach ar dudalen CGN14.

Caiff unrhyw warediad a wneir gan eich enwebai, neu gan berson sydd yn ymddiriedolwr hawl absoliwt o ran asedion y mae gennych berffaith hawl iddynt, eu trin fel eich gwarediad.

Nid yw rhai gwarediadau yn arwain at godi Treth Enillion Cyfalaf. Er enghraifft:

- pan fydd rhywun yn marw a throsglwyddir eu hasedion i'w cynrychiolwyr personol, **neu**
- pan gaiff cyfranddaliadau eu gwaredu yn gyfnewid am gyfranddaliadau eraill – gweler y nodiadau ar 'ailffurfio a meddiannu cwmnïau' ar dudalen CGN9.

Os ydych yn trosglwyddo ased i'ch gŵr neu'ch gwraig ac rydych yn byw gyda'ch gilydd, ni chewch eich trethu. Yn lle hynny, caiff unrhyw ennill neu golled ei gohirio nes y bydd eich cymar wedi gwaredu eich ased. Yna gall eich cymar dalu treth ar unrhyw ennill a wnaed yn ystod yr holl gyfnod pan fu un ohonoch yn berchen ar yr ased.

Os ydych yn aelod o bartneriaeth, mae rheolau arbennig ar gyfer ymdrin â gwaredu neu gaffael a wnewch pan fydd newid yn eich cyfran o asedion y bartneriaeth. Os bydd angen cyngor arnoch, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR288: Partnerships and Capital Gains Tax*.

■ *Derbynebion bach*

Mewn rhai sefyllfaoedd, ni all swm a dderbyniwyd o ran ased, a fyddai fel arall yn cael ei drin fel gwarediad rhannol o'r ased, gael ei drin fel gwarediad o gwbl os yw'r swm yn fach o'i gymharu â gwerth yr ased. Mae hyn yn gymwys pan dderbynnir symiau:

- fel dosbarthiad cyfalaf o ran cyfranddaliadau. Mae hyn yn cynnwys symiau a dderbyniwyd pan gaiff hawliau i gyfranddaliadau pellach a neilltuwyd i chi eu gwerthu dim wedi'i dalu, **neu**
- fel iawndal, neu o dan bolisi yswiriant, ar gyfer difrod neu anaf i'r ased, **neu**
- am ildio neu gytuno i beidio ag ymarfer hawliau, **neu**
- er mwyn defnyddio neu ymwelwa ar yr ased, **neu**
- mewn rhai achosion pan fydd caffaeliad gorfodol o dir.

Pan na fydd y dderbynneb yn cael ei thrin fel gwarediad, bydd angen i'r swm gael ei ddidynnu o'r gwariant sydd ar gael i'w osod yn erbyn unrhyw warediad diweddarach o'r ased. Os bydd swm y dderbynneb yn fwy na'r gwariant sydd ar gael, gall ennill godi o hyd wrth dderbyn. Gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth neu Swyddfa Cyllid y Wlad am fanylion pellach.

Os derbyniwch arian wrth gyfnewid cyfranddaliadau am fondiau corfforaethol cymwys, neu wrth drosi gwarannoedd, gall unrhyw ennill sy'n codi ar yr elfen ariannol gael ei ohirio hefyd os bydd y swm yn fach o'i gymharu â gwerth y cyfranddaliadau. Unwaith eto, dylech ofyn i'ch ymgynghorydd treth neu Swyddfa Cyllid y Wlad am fanylion pellach.

Beth yw bach?

Os, yn y sefyllfa a ddisgrifiwyd uchod, nad yw'r swm a dderbyniwch:

- yn fwy na £3,000, **neu**
- yn fwy na 5% o werth yr ased o ran yr hyn a dalwyd, **ac**
- mae'r swm a dderbyniwch yn llai na chost ganiataol yr ased

yna nid oes angen i chi nodi'r swm fel gwarediad ar Dudalennau CG1 neu Dudalennau CG2 a CG3.

Os bydd y swm yn fwy na'r terfynau hyn, ond credwch y dylai gael ei ystyried o dan yr amgylchiadau fel swm bach, dylech:

- nodi'r ennill neu'r golled ar y rhestr gwaredu ar Dudalen CG1 neu Dudalen CG2, **ac**
- esbonio ar dudalen CG7 pam y credwch y dylai'r swm gael ei drin fel swm bach;

ond **peidiwch** â chynnwys yr ennill neu'r golled yn y cyfansymiau ar Dudalen CG1 neu, ym mlychau 8.1 neu 8.2 ar Dudalen CG3. Gall eich Swyddfa Cyllid y Wlad ofyn am fanylion pellach yn yr achosion hyn.

Cydsoddi, arnewid a meddiannu cymdeithasau adeiladu

Os ydych:

- wedi derbyn arian o ganlyniad i gydsoddiad o ddwy neu fwy o gymdeithasau, **neu**
- wedi derbyn arian, wedi cael cyfranddaliadau, neu wedi derbyn arian a chyfranddaliadau, o ganlyniad i naill ai
  - arnewid cymdeithas adeiladu yn gwmni, **neu**
  - cymdeithas adeiladu yn cael ei meddiannu gan gwmni,

gallwch fod yn atebol i naill ai Dreth Incwm neu Dreth Enillion Cyfalaf. Efallai y gall y gymdeithas adeiladu ddweud wrthych a oes unrhyw rwymedigaeth treth. Os na allant, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth.

Os ydych wedi derbyn arian sy'n atebol i Dreth Enillion Cyfalaf (sy'n debygol os gwnaethoch ei dderbyn yn dilyn trosi neu drosfeddiannu cymdeithas adeiladu), yna dylech gynnwys manylion yn y rhestr ar Dudalen CG2.

Os bydd angen arweiniad manylach arnoch ar y ffordd i gyfrifo'r ennill, dylech ofyn i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

Os ydych wedi derbyn cyfranddaliadau, yna dim ond manylion unrhyw ennill a wnewch pan waredwch y cyfranddaliadau neu pan awdurdodwch rywun i'w gwaredu ar eich rhan y bydd angen i chi eu rhoi.

Ailffurfio a meddiannu cwmnïau

Os ydych wedi cyfnewid cyfranddaliadau neu warannoedd cwmni, fel rhan o ail-ffurfio neu feddiannu cwmni, efallai y cewch eich trin fel petaech wedi caffael y cyfranddaliadau neu'r gwarannoedd newydd am yr un pris, ac ar yr un dyddiad, â'r hen un. Ni chaiff ei gyfrif fel gwaredu at ddibenion treth.

Fodd bynnag, gallech gael eich trin fel petaech wedi gwaredu os na chaiff y gwaith o ailffurfio neu feddiannu cwmni ei gyflawni am resymau masnachol, neu os caiff ei wneud er mwyn osgoi treth. Gall cwmnïau wneud cais ymlaen llaw i Fwrdd Cyllid y Wlad am ganiatâd rhyddhau o'r rheolau gwrth-osgoi hyn. Bydd y caniatâd rhyddhau ond yn ddilys os caiff y gwaith o feddiannu, ailffurfio neu gyfuno ei gyflawni yn unol â'r cais caniatâd rhyddhau.

Os credwch eich bod wedi cael cyfranddaliadau neu warannoedd fel rhan o ailffurfio neu feddiannu cwmni, neu os bydd angen cyngor arnoch ynglŷn â'r rheolau gwrth-osgoi, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR285: Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax*.

Os ydych wedi cyfnewid cyfranddaliadau neu warannoedd am yr hawl i gael nifer anhysbys o gyfranddaliadau neu warannoedd yn y dyfodol, efallai y byddwch yn gallu dewis trin yr hawl fel petai'n warant, gweler *Taflen Gymorth IR285: Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax*. Dylid gwneud unrhyw ddewis o'r fath drwy roi manylion yng Ngholofn G ar Dudalen CG2. Y terfyn amser ar gyfer dewis o'r fath yw 12 mis o 31 Ionawr yn y flwyddyn dreth yn dilyn y flwyddyn dreth pan roddir yr hawl.

Colledion caniatáol a osodwyd yn erbyn incwm

Os gwnaethoch golledion o waredu cyfranddaliadau penodol nas rhestrwyd neu warannoedd efallai y gallech wneud cais i osod y colledion hynny yn erbyn eich incwm, yn hytrach na'ch enillion. Esbonnir y rheolau ar gyfer gwneud cais o'r fath yn *Nhaflen Gymorth IR286: Income Tax losses for shares you have subscribed for in unlisted trading companies*, ac ar gyfer cwmnïau Cynllun Buddsoddiant Menter yn *Nhaflen Gymorth IR297: Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu. Ceir rhagor o fanylion yn nhaflen *IR137: The Enterprise Investment Scheme*.

Os ydych yn gwneud cais ar eich Ffurflen Dreth i osod colledion o'r fath yn erbyn eich incwm, dylech gofio nodi swm y golled ym mlwch 8.13A neu flwch 8.13B a hefyd nodi manylion eich cais ar Dudalen CG2.

Enillion trethadwy eraill

Mewn rhai amgylchiadau, efallai y bydd yn rhaid i chi dalu Treth Enillion Cyfalaf ar enillion a wnaed gan gwmni neu ymddiriedolaeth y mae gennych fudd ynddynt. Mae hyn yn cynnwys enillion a wnaed gan:

- fathau arbennig o gwmnïau nad ydynt yn preswylio yn y DG ac rydych yn gyfranogwyr ynddynt. (Dylech gynnwys yr enillion hyn ar resi 1 i 8 ar Dudalen CG2 ond noder nad yw rhyddhad meinhau ar gael yn erbyn yr enillion hyn. Efallai y caiff eich colledion personol eu gosod yn eu herbyn.), neu
- ymddiriedolaeth sy'n preswylio yn y DG y gallwch elwa arni neu rydych yn elwa arni a chi neu eich cymar yw setlwr yr ymddiriedolaeth honno (rhowch yr enillion yn rhes 11 ar Dudalen CG3), neu
- ymddiriedolaeth nad yw'n preswylio yn y DG a phriodolir ei henillion i chi gan eich bod wedi derbyn taliadau cyfalaf, neu fuddiannau (gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth 301: Calculation of the increase in tax charge on capital gains from non-resident, dual resident and immigrating trusts*. (Rhowch yr enillion hyn yn rhes 12 ar Dudalen CG3), **neu**
- ymddiriedolaeth nad yw'n preswylio yn y DG ac rydych yn setlwr ynddi (gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth 299: Non-resident trusts and Capital Gains Tax*). (Rhowch yr enillion hyn yn rhes 12 ar Dudalen CG3.)

Os credwch y gallech fod yn agored i Dreth Enillion Cyfalaf ar enillion a wnaed gan unrhyw gwmni neu ymddiriedolaeth o'r fath, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth.

Enillion o flynyddoedd cynharach

Gall rhai enillion a wnaed cyn 1999-2000 fod yn drethadwy ym 1999-2000. Er enghraifft:

- pan wnaed cais am ryddhad treiglol wrth brynu ased treuliedig, gweler *Taflen Gymorth IR290: Business asset roll-over relief*, **neu**
- pan wnaed cais am roddion rhyddhad gohirio wrth drosglwyddo ased i chi ac rydych bellach yn ddi-breswyl, gweler *Taflen Gymorth IR295: Relief for gifts and similar transactions*, **neu**
- pan gafodd ennill ei ohirio o ganlyniad i ad-drefnu cyfranddaliadau lle y cawsoch chi fondiau corfforaethol cymwys, gweler *Taflen Gymorth IR285: Share reorganisations, company take-overs and Capital Gains Tax*, **neu**
- pan wnaethoch gais i ohirio ennill wrth danysgrifio ar gyfer cyfranddaliadau Ymddiriedolaeth Menter Cyfalaf, gweler *Taflen Gymorth IR297: Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax neu Daflen Gymorth IR298: Venture Capital Trusts and Capital Gains Tax*, **neu**
- ennill a gronnodd ym 1998-99 pan oeddech yn cael eich ystyried yn rhywun 'di-breswyl dros dro', gweler *Taflen Gymorth IR278: Temporary non-residents and Capital Gains Tax*.

Mae'n rhaid i chi gynnwys yr enillion hyn yn y Tudalennau Enillion Cyfalaf.

Adran 4 - Cyfrifo enillion a cholledion

Cofiwch, crynodeb syml o reolau Treth Enillion Cyfalaf yw'r nodiadau hyn, fel y maent yn gymwys mewn rhai achosion cyffredin. Os oes unrhyw amheuaeth gennych ynglŷn â'ch rhwymedigaeth, gofynnwch i'ch ymgynghorydd treth neu'ch Swyddfa Cyllid y Wlad.

Sut i gyfrifo enillion a cholledion

Er mwyn cyfrifo'r ennill a wnaethoch wrth waredu ased, didynnwch:

- y costau caniatáol, **a**
- y lwfans mynegeio

o'r elw a dderbyniwch o'r gwaredu. Gall y dyddiad gwaredu effeithio ar swm yr ennill, gweler tudalen CGN7 am enghreifftiau sy'n dangos sut i weithio allan eich ennill neu eich colled.

Os ydych wedi gwaredu cyfranddaliadau neu warannoedd mae yna reolau arbennig ar gyfer nodi'r asedion dan sylw a gweithio allan yr ennill neu'r golled. Gweler *Taflen Gymorth IR284: Shares and Capital Gains Tax*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Mae Taflen Gymorth IR287: Employee share schemes and Capital Gains Tax, sydd ar gael o'r Llinell Archebu yn esbonio mwy am gyfranddaliadau y gwnaethoch eu caffael mewn cysylltiad â'ch cyflogaeth neu drwy ymarfer opsiwn cyfranddaliadau cyflogeion.

Cyfrifiad syml

Ar ei symlaf bydd cyfrifo ennill trethadwy yn defnyddio'r fformat:

		Gweler nodiadau ar dudalen	
Elw o waredu			CGN11
minws	Cost caffael (a)	CGN12	
minws	Costau gwella (b)	CGN12	
minws	Costau caffael achlysurol (c)	CGN12	
minws	Costau gwaredu achlysurol (d)	CGN12	
	Cyfanswm y costau	x	x
minws	Lwfans mynegeio ar a, b, ac c (hyd at Ebrill 1998 yn unig)	CGN14	
yw	Ennill trethadwy		CGN7

Os bydd gennych ennill trethadwy o hyd ar ôl didynnu lwfans mynegeio, hwyrach y bydd hawl gennych i gael rhyddhad meinhau os yw'r ased a waredwyd yn gymwys fel ased busnes, gweler 'Beth yw ased busnes' ar dudalen CGN17. Bydd gweddill eich cyfrifiad yn edrych fel hyn:

Ennill trethadwy (o uchod) £ x

Cyfradd feinhau (yn seiliedig ar y cyfnod dal cymwys **ar ôl 5 Ebrill 1998** ar gyfer yr ased sydd bellach wedi'i waredu) x %

Ennill wedi'i feinhau: ennill trethadwy wedi'i luosi gyda meinhau % = £

Os na fydd yr ased a waredwyd yn gymwys ar gyfer meinhau'r ased busnes bydd eich ennill terfynol yr un peth â'r ennill trethadwy uchod.

Ni fydd y cyfrifiad syml hwn yn gweithio:

- os yw'r gwarediad yn warediad rhannol, gweler tudalen CGN14, **neu**
- os bydd rhyddhad yn ddyledus, gweler tudalen CGN17, **neu**
- os bydd gennych golledion i'w gosod yn erbyn yr ennill trethadwy, gweler y golofn nesaf, **neu**
- os yw'n golygu gwaredu cyfranddaliadau neu warannoedd, oni bai mai gwaredu daliad unigol o ddosbarth arbennig o gyfranddaliadau neu warannoedd ydyw.

Os gwnaethoch golled wrth werthu, mae'r rheolau yn wahanol. Yn gyntaf ni allwch ddidynnu unrhyw lwfans mynegeio os byddai'n troi eich ennill yn golled. Os yw eich lwfans mynegeio yn fwy na'ch ennill, dim ond digon i ostwng eich ennill i sero y gallwch ei ddidynnu. Yn ail nid yw'r rheolau rhyddhad meinhau newydd yn gymwys i golledion. Yn lle hynny dylech osod eich golledion yn erbyn unrhyw enillion trethadwy a wnaethoch cyn ystyried cymhwyso rhyddhad meinhau i'r enillion hynny.

Gallwch hefyd gael eich trin fel petaech wedi gwneud colled:

- os na ellir adennill benthyciadau penodol a wnaethoch i bobl sy'n masnachu, **neu**
- os ydych wedi gorfod gwneud taliadau o ganlyniad i warantau a roddasoch ar gyfer benthyciadau i bobl sy'n masnachu.

Ym mhob achos, mae'n rhaid i chi wneud cais. Mae *Taflen Gymorth IR296: Debts and Capital Gains Tax* yn egluro sut i wneud cais.

Sut y caniateir colled?

Didynnir cyfanswm y golledion caniataol ar gyfer 1999-2000 o gyfanswm enillion trethadwy'r flwyddyn ac eithrio enillion priodoledig. Ni ellir gosod eich golledion personol yn erbyn eich enillion priodoledig. Mae **enillion priodoledig** yn enillion trethadwy a gaiff eu trin fel eich rhai chi am eich bod yn setlwr neu fuddiolwr ymddiriedolaeth. Gweler pwyntiau bwled dau i bedwar yn yr adran o dan y pennawd 'Enillion trethadwy eraill' ar dudalen CGN9. Bydd didynnu'r golledion yn digwydd cyn cymhwyso rhyddhad meinhau, gweler tudalen CGN17. Os bydd y golled ganiataol yn fwy na'r enillion trethadwy caiff y golledion hyn eu cario ymlaen i'w gosod yn erbyn enillion a wnewch mewn blynyddoedd i ddod.

Pan fyddwch yn gosod golledion a ddygwyd ymlaen yn erbyn enillion trethadwy o flwyddyn ddiweddarach, rydych ond yn defnyddio digon o golledion i ostwng yr enillion trethadwy i lefel y swm blynyddol a eithriwyd, cyn meinhau. Mae'n rhaid i golledion o 1996-97, 1997-98 a 1998-99 gael eu defnyddio cyn unrhyw golledion eraill a allai fod gennych o 1995-96 a blynyddoedd cynharach. Mae'n rhaid i golledion caniataol gael eu gosod yn erbyn yr enillion ar gyfer y flwyddyn y codasant ynddi cyn i chi eu cario ymlaen i flynyddoedd diweddarach. Dangosir y pwyntiau hyn yn Enghraifft 20, o dan y pennawd 'Golledion caniataol' yn Adran 8.

Os oes gennych enillion priodoledig, wrth bennu pa golledion a ddygwyd ymlaen sy'n ofynnol i ostwng yr enillion trethadwy i lefel y swm blynyddol a eithrir, rydych yn gostwng y swm blynyddol a eithrir yn gyntaf gan swm yr enillion priodoledig.

Golledion rhwystredig

Colledion rhwystredig yw golledion y gellir eu gosod yn erbyn enillion o fathau penodol yn unig, sef:

a. Golledion ar warediadau i bobl gysylltiedig, gweler tudalen CGN13. Dim ond yn erbyn enillion ar warediadau i'r un person cysylltiedig y gellir gosod y golledion hyn. Yn amodol ar y cyfyngiad hwnnw mae'r holl reolau arferol sy'n ymwneud â'r golledion hynny yn berthnasol.

b. Golledion a drosglwyddwyd i chi gan ymddiriedolwyr pan fydd yr hawl absoliwt gennych i eiddo setledig, ond dim ond pan ddigwyddodd y trosglwyddo ar ôl 15 Mehefin 1999. Yn yr achos hwn dim ond yn erbyn enillion sy'n deillio o'r un ased y gellir gosod y golledion, (neu ased sy'n deillio o'r ased hwnnw). Yn y sefyllfa hon gosodir y golledion yn erbyn yr enillion hynny cyn unrhyw golledion eraill waeth a ydynt yn yr un flwyddyn neu a gawsant eu dwyn ymlaen a chânt eu trin fel petaent yn golledion yn y flwyddyn bresennol.

Er mwyn cadw'r golledion hyn ar wahân a sicrhau y cânt eu caniatáu ar yr adeg briodol, os oes gennych unrhyw golledion rhwystredig yn y flwyddyn, neu golledion rhwystredig o unrhyw flwyddyn gynharach, gwnewch gopi o ran isaf Tudalen CG8 ar gyfer pob colled rwystredig. Cyfeirir at y copi hwn yma fel Tudalen CG8 gysgod.

Peidiwch â chyfuno'r golledion rhwystredig â'ch prif gofnod golledion o Dudalen CG8 ar unrhyw adeg. Dylech gadw copi o unrhyw Dudalen CG8 gysgod nes y bydd y golledion rhwystredig wedi eu defnyddio'n llwyr o leiaf.

Cwblhau Tudalen CG1

Os ydych yn cwblhau Tudalen CG1, ac rydych yn gwneud colled yn ystod y flwyddyn sy'n rhwystredig, rhowch swm y golled yn y cromfachau sgwâr yng ngholofn F, ysgrifennwch y gair 'rhwystredig' yng ngholofn G, gan roi eglurhad ar Dudalen CG7. Os gellir defnyddio'r golledion yn y flwyddyn neu'r golledion a ddygwyd ymlaen wedyn, i'r graddau y cânt eu defnyddio, dylid eu cynnwys ym mlwch F2 a/neu F6 fel y bo'n briodol. Dylech ysgrifennu 'gan gynnwys swm y golled rwystredig' i'r chwith i'r naill neu'r llall o'r blychau hynny a chynnwys y ffigwr yn y swm yn F2 a/neu F6 fel y bo'n briodol. Dangoswch y defnydd o unrhyw golledion gwirioneddol a rhwystredig ar gofnod y golledion ar Dudalen CG8 ac unrhyw Dudalen CG8 gysgod yn ôl yr angen.

Cwblhau Tudalennau CG2 a CG3

Os ydych yn cwblhau Tudalennau CG2 a CG3, ac mae gennych golled rwystredig rhowch y swm mewn cromfachau sgwâr yng ngholofn H, ysgrifennwch y gair 'rhwystredig' gyferbyn ag ef gan roi eglurhad ar Dudalen CG7. Dylech gynnwys swm llawn y golled rwystredig yn y ffigwr ym mlwch 8.2 gan rannu cyfanswm y golled rhwng blwch 8.10 ar gofnod y golledion ar Dudalen CG8 ac unrhyw Dudalen CG8 gysgod yn ôl yr angen. Os gosodir golledion rhwystredig yn erbyn enillion yng ngholofnau K1 neu K3, rhowch serennig gyferbyn â swm y golled

gan roi eglurhad ar Dudalen CG7. Dangoswch y defnydd o unrhyw golledion gwirioneddol a rhwystredig ar gofnod y colledion ar Dudalen CG8 ac unrhyw Dudalen CG8 gysgod yn ôl yr angen.

Cario colledion yn ôl

Dylai cynrychiolwyr personol sy'n cwblhau Ffurflen Dreth ar gyfer y cyfnod hyd at y dyddiad marwolaeth yn y flwyddyn y bu y person farw, fod yn ymwybodol y gall colledion y cyfnod hwnnw gael eu cario'n ôl i'w gosod yn erbyn enillion y tair blynedd blaenorol. Mae mwy o wybodaeth ar gael yn *Nhaflen Gymorth IR282: Death, personal representatives and legatees*.

Gall colledion caniataol a wnaed wrth orffen neu derfynu prydles cloddio gael eu cario'n ôl a'u gosod yn erbyn enillion a wnaed o freindaliadau cloddio.

Os ydych yn gwneud cais ar eich Ffurflen Dreth i osod colledion o'r fath yn erbyn enillion o flynyddoedd cynharach, dylech gofio nodi swm y golled ym mlwch 8.12 a hefyd nodi manylion eich cais ar Dudalen CG7.

A ydych yn gorfod gwneud cais am golledion?

Mae'n rhaid gwneud cais am golled a wnaed ym 1996-97 neu mewn blynyddoedd diweddarach. Nid yw'r colledion hyn yn golledion caniataol nes y byddwch wedi rhoi rhybudd o swm y golled i'ch Arolygydd Treth. Nid oes gennych unrhyw ddewis am drefn y colledion caniataol. Mae'n rhaid eu didynnu o enillion yn y drefn a nodir uchod.

Nid oes yn rhaid i chi wneud cais am golledion ar gyfer 1995-96 a blynyddoedd cynharach. Dylai swm cronnol colledion o'r fath gael ei nodi ym mlwch 8.18. Os ydych yn defnyddio rhai o'r colledion hyn yn erbyn enillion o 1999-2000 dylai'r symiau sy'n cael eu defnyddio gael eu nodi yn y blychau ar gyfer colledion caniataol a ddygwyd ymlaen ar Dudalen CG3, colofn L3 a blwch 8.6 yn eich Ffurflen Dreth 1999-2000. Byddant yn ffurfio rhan o'r Ffurflen Dreth hon a gall yr Arolygydd Treth ymchwilio iddynt. Nid oes unrhyw derfyn amser cyn defnyddio'r colledion cynharach hyn.

Sut i wneud cais am golled

Mae'r rheolau ar gyfer cwblhau Ffurflenni Treth yn golygu y bydd yn rhaid i nifer o golledion gael eu cynnwys yn y Ffurflen Dreth am y flwyddyn y cawsant eu gwneud ynddi. Ym 1999-2000, os yw cyfanswm gwerth yr holl asedion a waredwyd gennych yn fwy na £14,200 neu os gwnaethoch enillion trethadwy o fwy na £7,100, mae'n rhaid i chi gynnwys yr holl golledion caniataol ar gyfer y flwyddyn yn yr adran colledion ar Dudalennau CG1 neu CG2 ac, os yw hynny'n briodol, ar Dudalennau CG4 i CG6. Drwy roi'r manylion y gofynnir amdanynt ar Dudalennau CG1 neu CG2 ac, os yw hynny'n briodol, ar Dudalennau CG4 i CG6, byddwn yn trin y cofnodion fel eich cais am golledion caniataol.

Os byddwch yn darganfod colled y dylech fod wedi gwneud cais amdani ar eich Ffurflen Dreth ond rydych eisoes wedi anfon y Ffurflen dylech, os yw'r adeg ar gyfer newid eich Ffurflen Dreth;

- eisoes heb fynd heibio – ysgrifennu atom yn rhoi manylion eich colled gan newid eich Ffurflen Dreth
- wedi mynd heibio, ond mae gennych amser o hyd i wneud cais, gweler yr adran nesaf – anfon llythyr atom yn dweud wrthym beth yw swm y golled.

Os bydd eich colled yn un nad oes yn rhaid i chi wneud cais amdani ar unwaith gweler yr adran nesaf, 'A oes terfyn amser ar gyfer gwneud cais am golledion?' am fanylion pryd y dylid gwneud cais am y golled.

A oes terfyn amser ar gyfer gwneud cais am golledion?

Mae'n rhaid gwneud cais am golledion caniataol ar gyfer 1996-97 a blynyddoedd diweddarach o fewn pum mlynedd a deg mis o ddiwedd y flwyddyn dreth y cawsant eu gwneud ynddi. Mae hyn yn gymwys p'un a ddefnyddir y colledion yn y cyfnod amser hwnnw ai peidio. Y dyddiad olaf ar gyfer gwneud cais am golledion a wnaed ym 1999-2000 yw 31 Ionawr 2006.

Os gwnaed cais am golledion a ddygwyd ymlaen yn y Ffurflen Dreth ar gyfer y flwyddyn y cawsant eu gwneud ynddi, neu drwy gais ar wahân, byddant yn gorfod cael eu cynnwys o hyd mewn Ffurflen Dreth o flwyddyn ddiweddarach pan gânt eu defnyddio. Nid oes terfyn amser ar gyfer gwneud cais am golledion ar gyfer 1995-96 a blynyddoedd cynharach y gellir eu cario ymlaen am gyfnod amhenodol nes y bydd enillion y gellir gwneud cais yn eu herbyn (gweler 'A ydych yn gorfod gwneud cais am golledion?' uchod).

Beth yw'r dyddiad gwaredu (neu gaffael)?

Os yw'r gwarediad (neu'r caffaeliad) yn digwydd drwy gyfrwng contract, y dyddiad gwaredu fel arfer yw dyddiad y contract.

Mewn nifer fach o achosion gall y contract fod yn amodol. Bydd hyn yn wir os byddwch yn gorfod diwallu un neu ragor o'r amodau cyn gwneud y contract yn gyfrwymol. Yn yr achosion hyn y dyddiad gwaredu yw'r dyddiad y cafodd yr olaf o'r amodau eu diwallu.

Mewn achosion eraill y dyddiad gwaredu (neu gaffael) fel arfer fydd y dyddiad pan gafodd yr ased ei gyflwyno i'r prynwr.

Mae eithriadau, er enghraifft, yn y rhan fwyaf o achosion pan gewch swm cyfalaf o berchenogaeth ased. Yn yr achos hwn, dyddiad y gwaredu yw'r dyddiad y derbyniwch y swm cyfalaf.

Enghraifft 1
Rydych yn gwerthu tir o dan gontract dyddiedig 2.4.2000
Cafodd y tir ei gyflwyno i'r prynwr ar 2.5.2000.
Caiff eich gwarediad, at ddiben gweithio allan eich ennill neu eich colled, ei drin fel petai'n digwydd ar 2.4.2000.
Mae eich gwarediad yn y flwyddyn dreth sy'n dod i ben 5.4.2000 a dylech gynnwys unrhyw ennill neu golled yn eich Ffurflen Dreth ar gyfer 1999-2000.

Beth yw'r elw o'r gwaredu?

Yn y rhan fwyaf o achosion dylai eich cyfrifiad ddechrau gyda chyfanswm yr elw o'r gwaredu y byddwch yn ei dderbyn. Gall hyn gynnwys:

- arian sy'n daladwy nawr neu yn y dyfodol, **neu**
- gwerth unrhyw ased a dderbyniwyd yn gyfnewid am yr ased rydych wedi ei waredu, **neu**
- gwerth hawl i dderbyn taliadau yn y dyfodol.

Dylai'r elw o'r gwaredu gynnwys arian parod, neu unrhyw beth y gellir ei droi'n arian, ond nid unrhyw beth sy'n drethadwy fel rhan o'ch incwm.

Os bydd elw gwaredu yn cynnwys unrhyw swm a ystyrir fel tâl mantoli wrth gyfrifo eich incwm, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR293: Chattels and Capital Gains Tax*.

Enghraifft 2
Rydych yn cyfnewid darlun rydych yn berchen arno, sy'n werth £30,000, am ddarlun sydd yn eich barn chi yn werth £33,000. Dylai eich cyfrifiad o'r ennill neu'r golled ar y darlun cyntaf hwnnw ddechrau gyda £33,000, gwerth y darlun rydych wedi ei dderbyn.

Mae'r gwahaniaeth rhwng taliadau yn y dyfodol a'r hawl i dderbyn taliadau yn y dyfodol yn bwysig pan na fyddwch yn derbyn yr holl arian y mae hawl gennych iddo ar unwaith.

Os yw'r cyfanswm y mae hawl gennych iddo yn hysbys neu os gellir ei gyfrifo, dylech gynnwys y swm llawn y gallech ei dderbyn. Ni ellir caniatáu am y posibilrwydd na fydd y swm cyfan hwyrach yn cael ei dalu i chi. Fodd bynnag, os daw'n eglur yn ddiweddarach na fyddwch byth yn derbyn rhyw ran o'r cyfanswm oedd yn ddyledus yn wreiddiol, gall cyfrifiad yr ennill gael ei addasu.

Os byddwch yn derbyn y cyfanswm sy'n ddyledus mewn rhandaliadau dros gyfnod sy'n hwy na 18 mis, efallai na fyddwch yn gorfod talu'r dreth sy'n ddyledus ar yr ennill mewn un swm. Gofynnwch i'r Swyddfa Cyllid y Wlad am fanylion.

Enghraifft 3
Rydych yn gwerthu cyfranddaliadau mewn cwmni ym mis Rhagfyr 1999 am £50,000, ynghyd â swm sydd yn gyfwerth â 10% o'r elw a wnaed gan y cwmni yn y flwyddyn a ddaeth i ben 30 Mehefin 1999. Dylech ddechrau eich cyfrifiad drwy gynnwys yr £50,000 a'r swm sydd yn gyfwerth â chanran o'r elw y mae hawl gennych iddi. Gellir paratoi cyfrifon a gall y swm gael ei gyfrifo.

Os na fydd rhyw ran o'r swm y mae hawl gennych iddo yn gallu cael ei gyfrifo eto pan fyddwch yn gwaredu oherwydd ffactor anhysbys, dylech gynnwys gwerth yr hawl i'r swm hwnnw yn y dyfodol. Pan fyddwch yn derbyn y swm y mae hawl gennych iddo, byddwch yn gwneud ennill neu golled arall wrth waredu'r hawl hwnnw.

Enghraifft 4
Rydych yn gwerthu tir am £40,000 a byddwch hefyd â'r hawl i dderbyn 50% o unrhyw gynnydd yng ngwerth y tir, os gall y prynwr gael caniatâd cynllunio i ddatblygu tai. Pan fyddwch yn gwaredu ni allwch wybod a fydd caniatâd cynllunio i ddatblygu tai. Pan fyddwch yn gwaredu ni allwch wybod a fydd caniatâd cynllunio ar gael neu pa effaith a gaiff ar werth y tir. Felly ni wyddoch faint a gewch yn y pen draw. Dylech ddechrau eich cyfrifiad drwy gynnwys y £40,000 ynghyd â'ch amcangyfrif o werth eich hawl i arian pellach.

Mewn rhai amgylchiadau, dylai'r swm a gewch gael ei ddisodli yn eich cyfrifiad gan **werth marchnad** yr ased rydych wedi ei waredu. Esbonnir yr ymadrodd **'gwerth marchnad'** ar dudalen CGN13. Bydd gwerth marchnad yn gymwys pan fydd y gwaredu, er enghraifft:

- i berson cysylltiol, **neu**
- heblaw fel bargen a wnaed ar hyd braich, er enghraifft, rhodd (oni bai fod y rheolau dim ennill/dim colled yn gymwys), gweler 'Beth am drosglwyddo i gymar?' ar dudalen CGN15), **neu**
- yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer ystyriaeth na ellir ei phrisio.

Esbonnir yr ymadrodd 'person cysylltiol' ar dudalen CGN13.

Rhestrwch gyfanswm yr elw o waredu pob un o'ch gwarediadau ar Dudalen CG1 neu Dudalen CG2 o'r Tudalennau Enillion Cyfalaf.

Enghraifft 5
Rydych yn trosglwyddo darn o dir gwerth £10,000 i'ch cyn gymar mewn setliad ysgariad, yn gyfnewid am eu hymrwymiad i ildio pob cais yn eich erbyn. Ni ellir prisio'r ystyriaeth a roddir. Dylech ddechrau eich cyfrifiad drwy gynnwys yr elw gwaredu o £10,000.

Mae gwarediad heblaw un drwy gyfrwng bargen a wnaed ar hyd braich yn warediad lle y mae'r naill barti neu'r llall yn bwriadu cyflwyno budd am ddim i'r llall yn y trafodion hynny.

Enghraifft 6
Rydych yn gwerthu tir gwerth £40,000 i ffrind am £25,000 fel arwydd o'ch cyfeillgarwch. Dylech ddechrau eich cyfrifiad o waredu'r tir drwy gynnwys elw gwaredu o £40,000.

Pa dreuliau y gellir eu didynnu?

Wrth weithio ennill allan, mae'r treuliau y gallwch eu didynnu yn disgyn i bedwar categori, sef:

- **costau caffael**
- **costau gwella**
- **costau caffael a gwaredu achlysurol**
- **gwariant wrth sefydlu, diogelu neu amddiffyn eich hawl i ased.**

Esbonnir yr ymadroddion hyn yn y nodiadau canlynol.

Mae treuliau a ddidynnwch yn gorfod bod yn wariant ar yr ased a waredwyd. Ni allant fod yn dreuliau y gallwch wneud cais amdanynt yn erbyn incwm. Gall gwariant a ystyriwyd mewn cais am lwfansau cyfalaf gael ei ddidynnu. Ni allwch wneud cais am gost cynnal a chadw ac atgyweirio arferol, neu daliadau llog.

Gall y treuliau y gallwch eu didynnu gael eu gostwng os yw'r ased a werthwyd gennych yn ased treuliedig. Esbonnir yr ymadrodd hwn ar dudalen CGN13. Os ydych wedi gwaredu ased yn rhannol yn unig, dim ond rhan o'r gwariant ar yr ased hwnnw y gallwch ei didynnu. Gweler tudalen CGN14 am fwy o fanylion am warediadau rhannol.

Pa gostau caffael y gellir eu didynnu?

Gallwch ddidynnu unrhyw swm a roesoch yn gyfan gwbl ac yn unig er mwyn caffael yr ased. Mewn rhai amgylchiadau gall y swm a roesoch gael ei ddisodli gan **werth marchnad** yr ased pan wnaethoch ei gaffael. Esbonnir yr ymadrodd **gwerth marchnad** yn fanylach yn y golofn nesaf.

Bydd gwerth marchnad yn gymwys pan fyddwch wedi caffael yr ased, er enghraifft:

- gan berson cysylltiol, **neu**
- heblaw fel bargen a gafodd ei tharo ar hyd braich, er enghraifft, rhodd (oni bai fod y rheolau dim ennill/dim colled yn gymwys, gweler 'Beth am drosglwyddo i gymar?' ar dudalen CGN15), **neu**
- yn gyfan gwbl neu'n rhannol ar gyfer ystyriaeth na ellir ei phrisio, **neu**
- pan fydd adseilio i 31 Mawrth 1982 yn gymwys (gweler tudalen CGN13).

Os nad yw'r ased yn un y gwnaethoch ei gaffael ond yn un a grëwyd gennych eich un (er enghraifft, hawlfraint neu ewyllys da busnes), didynnwch unrhyw wariant cyfalaf a daloch yn gyfan gwbl neu'n unig wrth greu'r ased.

Os oeddech yn dal yr ased ar 31 Mawrth 1982, bydd **adseilio** yn gymwys a dylai'r cyfrifiad gael ei seilio ar y gwerth ar 31 Mawrth 1982 oni bai fod y cyfrifiad cymharu a ddisgrifir yn yr adran dan y pennawd 'Beth yw adseilio?' ar dudalen CGN13 yn gymwys.

- Os ydych yn etifeddu ased, **neu**
- os oes gennych bellach yr hawl absoliwt i eiddo â phreswylfan,

cewch eich trin fel petaech wedi ei brynu ar ei werth marchnad ar ddyddiad marwolaeth yr ewyllysiwr (neu yn eithriadol, y dyddiad y gwnaeth y cynrychiolydd personol ei gaffael) neu'r dyddiad pan oedd gennych bellach yr hawl absoliwt, fel y bo'n briodol, ac nid ar y dyddiad y gwnaethoch ei gaffael mewn gwirionedd.

Pa gostau gwella y gellir eu didynnu?

Gallwch ddidynnu unrhyw swm a wariwyd gennych yn gyfan gwbl ac yn unig at ddiben gwella gwerth ased.

Dim ond gwariant sy'n parhau i gael ei adlewyrchu yng nghyflwr neu natur yr ased ar y dyddiad gwerthu sy'n ganiataol.

Enghraifft 7
Rydych wedi adeiladu estyniad ar eiddo rydych yn ei osod, ond wedi ei ddymchwel cyn ei werthu. Ni all cost yr estyniad hwnnw gael ei ddidynnu, gan nad yw bellach yn cael ei adlewyrchu yng nghyflwr yr ased ar y dyddiad gwerthu. Bydd y costau dymchwel yn ganiataol.

Pa gostau achlysurol y gellir eu didynnu?

Gallwch ddidynnu gwariant a dalwyd gennych yn gyfan gwbl ac yn unig wrth gaffael neu wrth waredu ased, ac sydd naill ai yn:

- ffioedd, comisiwn neu dâl a dalwyd am gyngor proffesiynol, **neu**
- costau trosglwyddo neu drawsgludo, **neu**
- toll stamp.

Gall costau hysbysebu, er mwyn dod o hyd i brynwr neu werthwr, gael eu didynnu a gall costau unrhyw brisiad neu ddosraniad a gewch er mwyn gweithio allan yr ennill neu'r golled wrth waredu gael eu didynnu hefyd.

Ni allwch ddidynnu unrhyw gostau a dalwyd gennych os bydd Cyllid y Wlad yn anghytuno â'ch prisiad.

Beth yw gwariant wrth sefydlu, diogelu neu amddiffyn eich hawl i ased?

Gallwch ddidynnu gwariant a dalwyd gennych yn gyfan gwbl neu'n unig wrth sefydlu, diogelu neu amddiffyn eich hawl i ased, neu eich hawliau dros ased.

Gall hyn gynnwys, er enghraifft, gostau cyfreithiol anghydfod gyda pherchennog tir cyfagos y mae ei ffens yn tresmasu ar eich tir chi.

Beth a olygir gan werth marchnad?

Mewn rhai achosion, disodlir y pris a daloch pan gawsoch yr ased, neu'r pris a dderbynioch pan wnaethoch ei waredu, gan werth marchnad yr ased wrth weithio eich ennill neu eich colled allan.

Os daliwyd yr ased rydych wedi ei waredu ar 31 Mawrth 1982, bydd **adseilio** yn gymwys – esbonnir adseilio ar dudalen CGN11. Os felly, gall y pris a dalwyd gennych am yr ased gael ei ddisodli yn y cyfrifiad gan werth marchnad yr ased ar 31 Mawrth 1982.

Mae rheol arbennig yn gymwys os ydych wedi gwaredu asedion drwy gyfres o warediadau cysylltiedig i bobl gysylltiol, fel bod gwerth yr asedion a drosglwyddwyd, o'u cymryd ar wahân, yn llai na'u gwerth cyfunol. Disodlir gwerth pob ased ar wahân yn eich cyfrifiad gan gyfran o gyfanswm gwerth marchnad yr holl asedion yn y gyfres. Gallwch eithrio o'r gyfres unrhyw warediadau a ddigwyddodd fwy na chwe blynedd cyn y gwarediad diwethaf yn y gyfres.

Gwerth y farchnad yw'r pris y gellid bod wedi disgwyl yn rhesymol i ased ei gyrraedd ar y farchnad agored ar y dyddiad caffael neu waredu hwnnw.

Yn achos cyfranddaliadau neu warannoedd a ddyfynnir ar Restr Swyddogol Ddyddiol y Gyfnewidfa Stoc (SEDOL) cyfrifir gwerth y farchnad mewn ffordd arbennig. Ar gyfer asedion, gwerth y farchnad yw'r isaf o:

- ffigwr un chwarter yn uwch na'r isaf o'r ddau bris yn y dyfynbris ar gyfer y diwrnod perthnasol, **a**
- y ffigwr hanner ffordd rhwng y pris uchaf a'r pris isaf ar gyfer bargeinion a gofnodwyd ar gyfer y diwrnod hwnnw.

Enghraifft 8
Rydych yn berchen ar y llog rhydd-ddaliad mewn darn o dir. Mae'r llog hwnnw yn werth £100,000. Bedair blynedd yn ddiweddarach rydych yn caniatáu prydles i'ch brawd dros y tir hwnnw. Mae'r brydles yn werth £20,000. Yna rydych yn gwerthu'r llog rhydd-ddaliad i'ch brawd am ei werth marchnad sef £60,000. Am fod y rhydd-ddaliad, a'r brydles, o'u hystyried ar wahân, yn werth llai na'r rhydd-ddaliad rhydd, rydych ond wedi sylweddoli cyfanswm o £80,000 wrth waredu tir gwerth £100,000. Am fod hon yn gyfres o drafodion, mae'n rhaid i chi ddisodli'r £20,000 a gawsoch o ganiatáu'r brydles gyda £25,000 wrth weithio allan eich ennill. Mae'n rhaid i chi ddisodli'r £60,000 a gawsoch am y llog rhydd-ddaliad gyda £75,000 wrth weithio allan yr ennill ar y gwarediad hwnnw.

Amcangyfrifon a phrisiadau

Os ydych wedi defnyddio unrhyw ffigurau amcangyfrif er mwyn gweithio allan eich enillion a'ch colledion, ticiwch y blwch priodol yng ngholofn 5 ar Dudalen CG1 neu CG2 o'r Tudalennau Enillion Cyfalaf, a disgrifiwch pa ffigurau a amcangyfrifwyd gennych a pham roedd yn rhaid i chi wneud amcangyfrif ar Dudalen CG1 neu Dudalennau CG4 i 6 os ydych wedi llenwi'r grid ar Dudalennau CG2 a CG3.

Dylech gynnwys unrhyw brisiadau a ddefnyddiwyd gennych i weithio allan eich enillion neu eich colledion, er enghraifft, am eich bod wedi dal yr ased ar 31 Mawrth 1982 neu am fod yr ased wedi cael ei waredu i berson cysylltiol. Dylech dicio'r blwch priodol yng ngholofn B, p'un a ydych wedi paratoi eich amcangyfrif eich hun o werth yr ased, neu wedi cael cyngor proffesiynol.

Efallai y bydd angen i chi wirio'r gwerthoedd a ddefnyddiwyd am gywirdeb. Mae Cyllid y Wlad yn defnyddio priswyr arbenigol i brisio rhai asedion, sef cyfranddaliadau heb eu dyfynnu, tir, ewyllys da a gweithiau celf yn bennaf. Byddwch yn gallu trafod y gwerthoedd a ddefnyddiwyd gennych gyda'r priswyr. Os na ellir cytuno ar y prisiad ar ôl trafod gallwch apelio i dribiwnlys annibynnol.

Prisiadau a wiriwyd eisoes gan Gyllid y Wlad

Os ydych eisoes wedi gofyn i Gyllid y Wlad ar ffurflen CG34 wirio unrhyw un o'r prisiadau a ddefnyddiwyd gennych yn eich cyfrifiadau, rhowch nodyn i'r perwyl hwnnw ar Dudalennau CG1 neu CG4 i CG6. Bydd angen i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad wybod pa brisiadau sydd eisoes wedi cael eu cytuno a pha rai sy'n dal heb gael eu cytuno.

Pwy yw pobl gysylltiol?

Os gwaredwch ased i berson cysylltiol, neu os ydych yn caffael ased wrth waredu i berson cysylltiol, disodlir y pris a dalwch neu a dderbyniwch gan werth marchnad yr ased wrth weithio allan eich ennill neu eich colled wrth waredu'r ased hwnnw.

Pobl gysylltiol yw:

- eich gŵr neu eich gwraig (ond os ydych yn cydfyw caiff unrhyw enillion eu gohirio), gweler *Taflen Gymorth IR281: Husband and wife, divorce and separation*
- eich brodyr neu eich chwiorydd a brodyr neu chwiorydd eich cymar
- eich rhieni, eich mamgu a'ch tadcu neu gyndeidiau eraill a rhieni, mamgu a thadcu neu gyndeidiau eraill eich cymar
- eich plant a disgynyddion uniongyrchol eraill a phlant a disgynyddion uniongyrchol eraill eich cymar
- gwŷr neu wragedd unrhyw un o'r perthnasau a restrwyd uchod
- eich partneriaid busnes a'u perthnasau, ynghyd â gwŷr a gwragedd y partneriaid hynny ac eithrio am gaffaeliadau neu werthiannau masnachol gwirioneddol o asedion partneriaeth
- unrhyw gwmni a reolir naill ai gennych chi neu gydag unrhyw un o'r bobl a restrwyd uchod
- ymddiriedolwyr setliad rydych chi, neu unigolyn (sy'n dal yn fyw) sy'n gysylltiedig â chi, yn setlwr ohoni.

Os gwnewch golled wrth waredu ased i berson cysylltiol, dim ond yn erbyn enillion a wnewch wrth waredu i'r un person cysylltiol hwnnw y gallwch osod y golled honno yn eu herbyn. Rhowch y manylion ar Dudalennau CG1 neu CG4 i CG6.

Beth yw ased treuliedig?

Ased treuliedig yw ased oedd â bywyd disgwyliadwy o 50 mlynedd neu lai ar y dyddiad pan wnaethoch ei gaffael. Caiff offer a pheiriannau eu trin fel asedion treuliedig.

Pan fyddwch yn gwaredu ased treuliedig caiff y treuliau y gallwch eu didynnu eu gostwng i roi cyfrif am fywyd disgwyliadwy yr ased sy'n weddill.

Os ydych wedi gwaredu ased o'r fath, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR293: Chattels and Capital Gains Tax*, sy'n esbonio sut i wneud y cyfrifiadau.

A oes unrhyw addasiad ar gyfer lwfansau cyfalaf?

Efallai y byddwch wedi gwneud cais am lwfansau cyfalaf ar yr asedion a waredwyd gennych. Nid oes angen i chi addasu'r cyfrifiad Treth Enillion Cyfalaf os yw'r gwaredu wedi achosi ennill trethadwy a gaiff ei ostwng i sero gan lwfans mynegeio. Os yw gwaredu yn achosi colled ganiatáol, caiff swm y golled ei ostwng drwy gyfyngu'r treuliau gan y lwfansau cyfalaf net. Mae 'lwfansau cyfalaf net' yn golygu cyfanswm y lwfansau cyfalaf minws unrhyw daliadau mantoli. Dim ond i sero y gall y cyfyngiad hwn ostwng y golled iddo. Ni all achosi ennill.

Enghraifft 9
Ym mis Mawrth 1994 prynwyd gwasg argraffu gennych am £100,000. Fe'i gwerthwyd gennych ym mis Mehefin 1999 am £27,000. Y lwfansau cyfalaf net ar ôl didynnu'r tâl mantoli yw £73,000. Caiff y golled o £73,000 ei gostwng i sero drwy gyfyngu ar y treuliau caniatáol gan swm y lwfansau cyfalaf.

Beth yw adseilio?

Yn y bôn, caiff ennill neu golled ei gyfyngu i swm yr ennill neu'r golled ers 31 Mawrth 1982. Gallwch:

- dewis (o fewn y terfyn amser a ganiateir, gweler isod) cyfrifo'r enillion a'r colledion ar yr holl asedion a gwmpesir gan y dewis drwy gyfeirio at werth yr asedion ar 31 Mawrth 1982, neu
- cymharu'r cyfrifiad hwnnw â'r cyfrifiad sy'n seiliedig ar gost wreiddiol yr ased, **ac**
  - os oes ennill ar y ddau gyfrifiad, mae'r ennill lleiaf yn drethadwy,

- os oes colled ar y ddau gyfrifiad, mae'r golled leiaf yn ganiataol, **neu**
- os yw un cyfrifiad yn achosi colled, tra bod y llall yn achosi ennill, cewch eich trin fel na phetaech wedi gwneud ennill na cholled.

Os ydych:

- wedi caffael ased gan eich cymar ar adeg pan oeddech yn cydfyw gyda'ch gilydd, **ac**
- os oedd eich cymar yn berchen ar yr ased hwnnw ar 31 Mawrth 1982,

gallech gael eich trin fel petaech yn berchen ar yr ased hwnnw ar 31 Mawrth 1982, er mwyn gweithio allan eich ennill neu eich colled. Caiff yr ased ei gwmpasu gan ddewis neu heb ddewis eich cymar, oni throsglwyddwyd yr ased atoch cyn 6 Ebrill 1988.

Gelwir eich dewis yn 'ddewis adseilio' a bydd yn gymwys i'r holl asedion a ddaliwyd gennych ar 31 Mawrth 1982. Ni fydd dewis yn fanteisiol i chi bob amser, ond os hoffech wneud y dewis mae'n rhaid i chi wneud hynny o fewn 2 flynedd o ddiwedd y flwyddyn dreth y gwaredwyd ased am y tro cyntaf ynddi a ddaliwyd gennych ar 31 Mawrth 1982. Bydd gan Fwrdd Cyllid y Wlad yr hawl i ganiatáu cyfnod hwy i chi. Unwaith y byddwch wedi dewis, ni fydd yn bosibl i chi dynnu hyn yn ôl ar ddyddiad diweddarach.

Os ydych wedi gwaredu ased a ddaliwyd gennych ar 31 Mawrth 1982, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR280: Rebasing - assets held at 31 March 1982,* sy'n egluro'r rheolau hyn yn fanylach.

Dangoswch lle rydych wedi defnyddio prisiad ar 31 Mawrth 1982 drwy dicio'r blychau priodol yng ngholofnau B a C ar Dudalen CG1 neu Dudalen CG2 o'r Tudalennau Enillion Cyfalaf.

Os byddwch am wneud dewis adseilio yn eich Ffurflen Dreth 1999-2000 rhowch 'dewis adseilio' yng ngholofn G ar Dudalen CG1 neu CG2 o'r Tudalennau Enillion Cyfalaf yn erbyn pob gwarediad yr effeithiodd y dewis arno.

■ *Beth yw lwfans mynegeio?*

Mae'r lwfans hwn yn sicrhau mai dim ond enillion a addaswyd hyd at Ebrill 1998 ar gyfer effeithiau chwyddiant ers i chi gaffael yr ased a gaiff eu hystyried. Rhewir lwfans mynegeio o Ebrill 1998. Fodd bynnag, bydd rhyddhad meinhau yn gymwys i warediadau neu ar ôl 6 Ebrill 1998, gweler Adran 6 ar dudalen CGN17 sy'n egluro sut mae rhyddhad meinhau yn gweithio.

Mae lwfans mynegeio yn gweithio drwy roi lwfans i chi sydd yn gyfwerth â'r swm y byddai cost yr ased wedi codi pe bai ei werth wedi aros gyfuwch â chwyddiant ers iddo gael ei gaffael .

Os oeddech yn dal yr ased ar 31 Mawrth 1982 (neu os gwnaethoch gaffael yr ased hwnnw gan eich cymar ac roedd ef neu hi yn ei ddal ar y dyddiad hwnnw) ac roedd gwerth marchnad yr ased ar y dyddiad hwnnw yn fwy na phan wnaethoch ei gaffael, cyfrifir lwfans mynegeio ar y gwerth uwch hwnnw. Mae eithriad os ydych wedi gwneud y dewis a ddisgrifiwyd o dan y pennawd "Beth yw adseilio". Yn yr achos hwnnw, cyfrifir lwfans mynegeio ar werth 31 Mawrth 1982 waeth beth yw'r gost, oni bai eich bod wedi caffael yr ased gan eich cymar ar ôl 5 Ebrill 1988 ac nad oeddent wedi gwneud y dewis.

Bydd lwfans mynegeio yn gostwng, neu gall ddileu, yr enillion rydych yn drethadwy arnynt. Ond ni ellir ei ddefnyddio i greu neu i gynyddu colled ganiatáol. Gweler Adran 5 yn y golofn nesaf am gymorth wrth weithio allan eich lwfans mynegeio.

■ *Beth yw gwaredu'n rhannol?*

Os ydych wedi gwaredu rhan o ased fel bod rhan o'r ased yn cael ei chadw gennych (neu os ydych wedi cadw budd yn yr ased hwnnw), mae rheolau ar gael i ddyrannu gwariant rhwng y rhan a werthwyd a'r rhan a gadwyd. Y rhan yw:

- gwariant sy'n ymwneud yn gyfan gwbl neu'n rhannol â'r rhan a waredwyd ac mae'n dynadwy yn llawn
- gwariant sy'n ymwneud yn gyfan gwbl â'r rhan a gadwyd ac nid yw'n dynadwy
- cyfran o wariant sy'n ymwneud yn rhannol â'r rhan a werthwyd ac mae'n dynadwy (nid yw'r canran sy'n cyfeirio at y rhan a gadwyd yn dynadwy).

Y gyfran dynadwy yw'r ffracsiwn canlynol:

$$\frac{\text{Elw gwaredu}}{\text{Elw gwaredu} + \text{Gwerthu y rhan a gadwyd.}}$$

Enghraifft 10

Rydych yn gwerthu rhan o ased am £25,000. Costiodd yr ased £30,000 i chi ac mae'r rhan o'r ased a gadwyd gennych yn werth £50,000. Rydych hefyd wedi talu gwariant o £5,000 yn gyfan gwbl ar ran yr ased a werthwyd gennych. Er mwyn gweithio allan eich ennill neu eich colled, gallwch ddidynnu'r £5,000 a wariwyd ar y rhan a werthwyd ynghyd â:

$$\frac{£25,000}{£25,000 + £50,000} \times £30,000 = £10,000$$

Pan fydd y rhan honno o'r ased a werthir, yn enwedig yn achos cyfranddaliadau a gwarannoedd, yn ffracsiwn cydnabyddedig o'r ased, gall y gwariant caniatáol gael ei ddyrannu yn unol â'r ffracsiwn hwnnw er mwyn osgoi gwaith prisio diangen. Gall y gwariant nas caniatawyd y tro hwn gael ei ganiatáu mewn gwarediad diweddarach.

Adran 5 - Lwfans mynegeio

Mae'r Adran hon yn dangos i chi sut i weithio allan y lwfans mynegeio ar rai gwerthiannau syml. Ond cyflwyniad yn unig yw hwn. Os oes unrhyw amheuaeth gennych ynglŷn â'ch hawl i gael rhyddhad, gofynnwch i'ch Swyddfa Cyllid y Wlad neu ymgynghorydd treth. Yn arbennig, caiff y rheolau sylfaenol eu haddasu os:

- gwaredwyd ased a ddaliwyd gennych ar 31 Mawrth 1982, **neu**
- gwaredwyd cyfranddaliadau neu warannoedd cyfunol gennych (gweler tudalen CGN17).

Sonnir am y newidiadau i'r rheolau yma, ond efallai y bydd angen Taflenni Cymorth arnoch i'w deall yn llawn. Gallwch ofyn am weld Llawlyfr Enillion Cyfalaf Cyllid y Wlad mewn unrhyw Ganolfan Ymholiadau Cyllid y Wlad, sy'n esbonio'r rheolau ar gyfer lwfans mynegeio yn fanwl.

■ *Pryd bydd lwfans mynegeio yn gymwys?*

Wrth gyfrifo enillion trethadwy sy'n cronni ar neu ar ôl 6 Ebrill 1998 bydd lwfans mynegeio wedi ei rewi. Golyga hyn y rhoddir lwfans mynegeio ar gyfer cyfnodau hyd at Ebrill 1998, ond nid ar ôl hynny. Felly, ar gyfer ased a ddaliwyd ar 6 Ebrill 1998 ac a waredwyd ar ôl y dyddiad hwnnw, caiff lwfans mynegeio ei gyfrifo ar gyfer y cyfnod o'r dyddiad caffael (neu'r dyddiad y gwariwyd y gwariant) hyd at Ebrill 1998, ond nid ar gyfer y cyfnod o Ebrill 1998 hyd at y dyddiad gwaredu. Ar gyfer asedion a gaffaelwyd ar neu ar ôl 1 Ebrill 1998 ni ellir didynnu unrhyw lwfans mynegeio wrth gyfrifo'r ennill trethadwy.

■ *Sut y cyfrifir lwfans mynegeio?*

Rydych yn gweithio allan lwfans mynegeio drwy luosi'r swm a wariwyd gennych gyda'r ffactor mynegeio. Ceir tabl o'r ffactorau mynegeio ar dudalen CGN16. Bydd angen i chi ddethol y ffactor mynegeio ar gyfer y flwyddyn a'r mis y gwnaethoch gaffael yr ased ynddynt neu, ar gyfer gwariant dilynol ar yr ased, y flwyddyn a'r mis y gwariwyd y gwariant ynddynt. Er enghraifft, y ffactor mynegeio ar gyfer gwariant a wariwyd ym mis Mehefin 1989 yw 0.409.

Enghraifft 11

Rydych yn prynu ased am £10,000 ym mis Mehefin 1989 ac yn ei werthu am £20,000 ym mis Tachwedd 1999.

Eich lwfans mynegeio fydd:

£10,000 x 0.409 = £4,090

Rydych yn didynnu lwfans o £4,090 wrth weithio allan eich ennill.

Beth am golledion?

Ni allwch ddefnyddio lwfans mynegeio i droi ennill yn golled neu i gynyddu eich colled.

Enghraifft 12
Rydych yn gwerthu ased ym mis Mai 1999 am £20,000. Costiodd £30,000 i chi ym Mis Tachwedd 1990. Rydych wedi gwneud colled o £10,000. Ni allwch ddidynnu unrhyw lwfans mynegeio, oherwydd ni all y lwfans gael ei ddefnyddio i gynyddu swm colled.

Enghraifft 13
Rydych yn gwerthu ased ym mis Mai 1999 am £70,000. Costiodd £50,000 i chi ym mis Mehefin 1984. Cyn lwfans mynegeio rydych yn gwneud ennill o £20,000.

Eich lwfans mynegeio fyddai:

£50,000 x 0.823 = £41,150

Ond dim ond £20,000 yw eich ennill cyn lwfans mynegeio ac ni all lwfans mynegeio droi ennill yn golled. Cyfyngir eich lwfans mynegeio i £20,000 fel eich bod yn cael eich trin fel na phetaech wedi gwneud ennill na cholled.

Mewn achos fel hyn rhowch ddim ar gyfer yr ennill yng ngholofn F ar Dudalen CG1 neu golofn H ar Dudalen CG3.

Pa gostau sy'n denu lwfans mynegeio?

Gallwch ddidynnu lwfans mynegeio o'ch ennill os oes gennych unrhyw un o'r mathau canlynol o wariant:

- cost ased, **neu**
- cost achlysurol caffael ased, **neu**
- cost creu ased os na chafodd ei gaffael.

Caiff unrhyw un o'r mathau hyn o wariant eu trin fel petaent wedi cael eu gwneud pan gafodd yr ased ei gaffael neu ei greu.

Gallwch hefyd ddidynnu lwfans mynegeio os oes gennych un o'r mathau canlynol o wariant:

- gwariant ar wella'r ased, **neu**
- gwariant ar sefydlu, diogelu neu amddiffyn eich hawl i'r ased.

Caiff unrhyw un o'r mathau hyn o wariant eu trin fel petaent wedi cael eu gwneud pan ddaeth y gwariant hwnnw yn ddyledus ac yn daladwy.

Enghraifft 14
Gwnaethoch gaffael ased o dan gontract a wnaed ym mis Mawrth 1995.

Nid oes rhaid gwneud taliad tan fis Mehefin 1995. Pan fyddwch yn cyfrifo eich lwfans mynegeio dylech drin y gwariant fel petai wedi ei wneud wrth gaffael ym mis Mawrth 1995.

Example 15
Ym mis Mai 1996 lluniwyd contract rhyngoch chi ag adeiladwr i ychwanegu estyniad i eiddo rydych yn berchen arno. Roedd y gost yn ddyledus ac yn daladwy pan gafodd y gwaith ei gwblhau ym mis Medi 1996. Pan fyddwch yn cyfrifo'r lwfans mynegeio dylech drin y gwariant fel petai wedi'i dalu ym mis Medi 1996.

Ni allwch gael lwfans mynegeio ar gostau gwerthu ased, waeth pryd y gwnaethoch dalu'r costau hynny.

Beth am waredu'n rhannol?

Os gwaredwch ran o ased rydych yn berchen arno, byddwch ond yn gallu didynnu rhan o gostau'r ased hwnnw wrth weithio allan eich ennill neu eich colled. Mae Adran 4 yn esbonio sut y gwneir y cyfrifiad.

Lluosir eich ffactor mynegeio gyda'r rhan o'r gost y gellir ei didynnu – nid gyda chost gyfan yr ased.

Enghraifft 16
Rydych yn gwerthu ased a gostiodd £20,000 i chi. Mae'r fformwla gwarediad rhannol yn eich galluogi i ddidynnu £5,000 o'r gost honno er mwyn gweithio allan eich ennill. Dylech luosi'r ffactor mynegeio gyda £5,000 er mwyn gweithio allan eich lwfans mynegeio.

Beth am drosglwyddo i gymar?

Os gwaredwch ased i'ch gŵr neu eich gwraig, ni fyddwch yn talu Treth Enillion Cyfalaf os ydych yn cydfyw.

Caiff yr ased ei drin fel petaech wedi ei waredu am swm sy'n ddigon i sicrhau na wnewch ennill na cholled. Mae'r swm hwn yn cynnwys lwfans mynegeio. Cyfeirir at y math hwn o waredu fel trosglwyddiad dim ennill/dim colled.

Bydd eich gŵr neu eich gwraig yn talu treth ar unrhyw ennill a wnânt wrth waredu'r ased. Gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR281: Husband and wife, divorce and separation.*

Enghraifft 17
Ym mis Awst 1999 rydych yn rhoi darlun i'ch gŵr. Costiodd £50,000 i chi ym mis Mehefin 1986. Cewch eich trin fel petaech wedi ei waredu am £83,150 fel y dangosir isod. Caiff ef ei drin fel petai wedi ei gaffael am yr un swm.

Trosglwyddwyd am	£83,150
Cost	£50,000

Lwfans mynegeio (hyd at Ebrill 1998 yn unig)

£50,000 x 0.663	£33,150
dim ennill/dim colled	sero

Mae'r cyfrifiad yn union yr un peth os gwerthir y darlun i'ch gŵr waeth beth yw'r swm y gallai ef fod wedi ei dalu.

Beth am asedion a ddaliwyd ar 31 Mawrth 1982?

Os oeddech:

- yn berchen ar ased ar 31 Mawrth 1982, **neu**
- wedi caffael ased gan eich cymar mewn trosglwyddiad dim ennill/dim colled ar ôl y dyddiad hwnnw, ac os daliodd eich cymar yr ased ar 31 Mawrth 1982,

caiff y rheolau eu haddasu ar gyfer yr ased hwnnw.

Cyfrifir eich lwfans mynegeio ar **y mwyaf** o:

- cyfanswm y gost a dalwyd gennych chi neu eich cymar hyd at 31 Mawrth 1982 ar yr ased hwnnw (gan gynnwys ei bris caffael cychwynnol), **neu**
- gwerth yr ased hwnnw ar 31 Mawrth 1982, **ond bai**

eich bod wedi dewis bod adseilio i 31 Mawrth 1982 yn gymwys i bob un o'ch gwarediadau. Os ydych wedi dewis adseilio, cyfrifir lwfans mynegeio ar werth yr ased ar 31 Mawrth 1982.

Gallwch gyfrifo lwfansau mynegeio ar wahân ar unrhyw wariant perthnasol a dalwyd ar ôl 31 Mawrth 1982 sy'n ganiataol wrth weithio eich enillion allan.

Gallwch ddarganfod mwy am adseilio i 31 Mawrth 1982 drwy ofyn i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR280: Rebasing - assets held at 31 March 1982.*

Enghraifft 18
Prynwyd ased gennych ym 1979 am £20,000. Ar 31 Mawrth 1982 roedd yn werth £15,000. Dylech gyfrifo eich lwfans mynegeio drwy luosi £20,000 gyda'r ffactor mynegeio oni bai eich bod wedi dewis adseilio; os felly dylech luosi £15,000 gyda'r ffactor mynegeio.

■ *Tabl lwfans mynegeio ar gyfer gwarediadau ar ôl 31 Mawrth 1998*

Rydych yn gweithio allan lwfans mynegeio drwy luosi'r swm a wariwch gyda'r ffactor mynegeio. Cynhwysir yr holl ffactorau sydd eu hangen arnoch yn y tabl isod.

Er enghraifft, os cawsoch wariant ym Mehefin 1989, edrychwch ar draws y colofnau Mis i ddod o hyd i Fehefin ac yna edrychwch i lawr y golofn nes i chi ddod o hyd i'r rhes ar gyfer 1989. Eich ffactor mynegeio ar gyfer Mehefin 1989 fydd 0.409.

	Mis											
Blwyddyn	Ion	Chwe	Maw	Ebr	Mai	Meh	Gorff	Awst	Medi	Hyd	Tach	Rhag
1982			1.047	1.006	0.992	0.987	0.986	0.985	0.987	0.977	0.967	0.971
1983	0.968	0.960	0.956	0.929	0.921	0.917	0.906	0.898	0.889	0.883	0.876	0.871
1984	0.872	0.865	0.859	0.834	0.828	0.823	0.825	0.808	0.804	0.793	0.788	0.789
1985	0.783	0.769	0.752	0.716	0.708	0.704	0.707	0.703	0.704	0.701	0.695	0.693
1986	0.689	0.683	0.681	0.665	0.662	0.663	0.667	0.662	0.654	0.652	0.638	0.632
1987	0.626	0.620	0.616	0.597	0.596	0.596	0.597	0.593	0.588	0.580	0.573	0.574
1988	0.574	0.568	0.562	0.537	0.531	0.525	0.524	0.507	0.500	0.485	0.478	0.474
1989	0.465	0.454	0.448	0.423	0.414	0.409	0.408	0.404	0.395	0.384	0.372	0.369
1990	0.361	0.353	0.339	0.300	0.288	0.283	0.282	0.269	0.258	0.248	0.251	0.252
1991	0.249	0.242	0.237	0.222	0.218	0.213	0.215	0.213	0.208	0.204	0.199	0.198
1992	0.199	0.193	0.189	0.171	0.167	0.167	0.171	0.171	0.166	0.162	0.164	0.168
1993	0.179	0.171	0.167	0.156	0.152	0.153	0.156	0.151	0.146	0.147	0.148	0.146
1994	0.151	0.144	0.141	0.128	0.124	0.124	0.129	0.124	0.121	0.120	0.119	0.114
1995	0.114	0.107	0.102	0.091	0.087	0.085	0.091	0.085	0.080	0.085	0.085	0.079
1996	0.083	0.078	0.073	0.066	0.063	0.063	0.067	0.062	0.057	0.057	0.057	0.053
1997	0.053	0.049	0.046	0.040	0.036	0.032	0.032	0.026	0.021	0.019	0.019	0.016
1998	0.019	0.014	0.011									

Beth am waredu cyfranddaliadau neu warannoedd?

Caiff cyfranddaliadau a gaffaelwyd (neu a gafodd eu trin fel rhai a gaffaelwyd) ar ôl 5 Ebrill 1982 a chyn 6 Ebrill 1998 eu trin fel ased unigol, y gronfa cyfranddaliadau os ydynt:

- yn yr un dosbarth
- yn yr un cwmni
- wedi'u caffael yn yr un modd.

Bydd cyfranddaliadau a gaffaelwyd (neu a gafodd eu trin fel rhai a gaffaelwyd) rhwng 7 Ebrill 1965 a 5 Ebrill 1982 yn ffurfio cronfa ar wahân.

Mae'r un driniaeth yn gymwys i rai gwarannoedd ac asedion tebyg. Addasir y rheolau ar gyfer lwfans mynegeio er mwyn ymdopi â chyfuno cyfranddaliadau mewn cronfa. Ni chaiff cyfranddaliadau ac ati a gaffaelwyd ar neu ar ôl 6 Ebrill 1998 eu cronni.

Hefyd nid ydynt yn denu unrhyw lwfans mynegeio, (gweler tudalen CGN14). Os ydych wedi gwaredu cyfranddaliadau neu warannoedd, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR284: Shares and Capital Gains Tax*.

Mae *Taflen Gymorth IR287: Employee share schemes and Capital Gains Tax*, yn esbonio mwy am gyfranddaliadau y gwnaethoch eu caffael mewn cysylltiad â'ch cyflogaeth neu drwy ymarfer opsiwn cyfranddaliadau cyflogeion. Mae hon ar gael o'r Llinell Archebu.

Adran 6 - Rhyddhad meinhau

Cyflwyniad

Mae rhyddhad meinhau yn rhyddhad newydd sy'n gostwng swm ennill trethadwy i Dreth Enillion Cyfalaf, yn ôl nifer y blynyddoedd cyfan y daliwyd yr ased **ar ôl 5 Ebrill 1998**. Po fwyaf yw nifer y blynyddoedd cyfan hyd at uchafswm o ddeg yr ydych wedi dal yr ased y lleiaf yw canran yr ennill sy'n agored i dreth. Dangosir swm y gostyngiad yn y tabl isod ac mae'n dibynnu ar p'un a yw'r ased yn ased busnes neu'n ased nad yw'n ymwneud â busnes.

Enillion ar asedion busnes	
Nifer y blynyddoedd cyfan	Canran yr ennill trethadwy
1	92.5
2	85
3	77.5
4	70
5	62.5
6	55
7	47.5
8	40
9	32.5
10 neu fwy	25

Enillion ar asedion nad ydynt yn ymwneud â busnes	
Nifer y blynyddoedd cyfan	Canran yr ennill trethadwy
1	100
2	100
3	95
4	90
5	85
6	80
7	75
8	70
9	65
10 neu fwy	60

Cafodd y tabl rhyddhad meinhau cyflawn ei gynnwys er gwybodaeth, er ar gyfer gwarediadau yn y flwyddyn dreth 1999-2000 a gynhwyswch yn y Ffurflen Dreth hon dim ond dwy flynedd gyfan y bydd yn bosibl eu cronni. Ni fydd y cyfraddau canrannol ar gyfer tair blynedd neu fwy (y rheini â chefndir tywyll) ar gael tan flynyddoedd treth diweddarach.

Ar gyfer y rhan fwyaf o bobl ni fydd y darpariaethau newydd yn cael unrhyw effaith ar gyfrifiad yr enillion sy'n drethadwy i Dreth Enillion Cyfalaf ar gyfer y flwyddyn dreth 1999-2000. Os nad yw un o'r asedion a waredwyd gennych yn y flwyddyn dreth 1999-2000 wedi bod yn asedion busnes i unrhyw raddau yn y cyfnod rhwng 6 Ebrill 1998 a'r dyddiad gwaredu, ni fydd rhyddhad meinhau yn gostwng eich ennill. Os na fyddwch yn sicr, gofynnwch am *Daflen Gymorth IR279: Taper relief*.

Mewn rhai achosion cyfyngedig, nid yw enillion trethadwy yn amodol ar ryddhad meinhau. Er enghraifft, os cewch eich trethu ar enillion a wnaed gan gwmni nad yw'n preswylio yn y DG oherwydd eich bod yn gyfranogwr yn y cwmni hwnnw, ni fydd unrhyw ryddhad meinhau yn ddyledus.

Beth yw ased busnes?

Ased busnes at ddibenion rhyddhad meinhau yw

- ased (heblaw cyfranddaliadau neu warannoedd) a ddefnyddir at ddiben masnach, proffesiwn neu alwedigaeth a gyflawnir gennych (naill ai ar eich pen eich hun neu mewn partneriaeth) neu gan eich cwmni cymwys
- ased (heblaw cyfranddaliadau neu warannoedd) a ddelir at ddiben swydd neu gyflogaeth gymwys gyda chyflogwr masnachu y mae'n ofynnol i chi neilltuo eich amser cyfan yn sylweddol iddo
- cyfranddaliadau neu warannoedd a ddelir gennych mewn cwmni cymwys.

Mae cwmni cymwys yn gwmni masnachu (neu gwmni dal mewn grŵp masnachu) lle rydych yn dal cyfranddaliadau sy'n eich galluogi i ymarfer o leiaf 25% o'r hawliau pleidleisio yn y cwmni hwnnw, neu 5% o'r hawliau pleidleisio os ydych yn swyddog sy'n gweithio llawn amser neu'n gyflogai yn y cwmni hwnnw (neu'r grŵp).

Adran 7 - Rhyddhad a dewis

Rhoddir rhyddhad o Dreth Enillion Cyfalaf mewn ffyrdd gwahanol i fodloni dibenion gwahanol. **Rhoddir rhai mathau o ryddhad yn awtomatig ac felly nid oes angen i chi wneud cais.** Dylech ystyried swm unrhyw ryddhad 'awtomatig' sy'n ddyledus pan fyddwch yn gweithio allan eich enillion a'ch colledion ynghyd â'r holl fathau eraill o ryddhad rydych yn gwneud cais amdanynt.

Dim ond os gwnewch gais amdanynt y rhoddir rhai mathau o ryddhad. Mewn rhai achosion gallwch wneud cais yn y Ffurflen Dreth. Mewn eraill mae'n rhaid i chi wneud y cais ar ffurflen ar wahân, a amgaewch gyda'r Ffurflen Dreth.

Gallwch hefyd ddefnyddio'r Tudalennau Enillion Cyfalaf i wneud unrhyw ddewis sy'n pennu sut y caiff eich enillion eu gweithio allan.

Cyflwynir y mathau mwyaf cyffredin o ryddhad a dewis yn fras isod, ac ymdrinnir â hwy yn llawnach yn y Taflenni Cymorth sydd ar gael o'r Llinell Archebu; gweler y rhestr ar dudalen CGN1.

Eich cartref

Yn y rhan fwyaf o achosion ni fyddwch yn talu treth ar unrhyw ennill a wnewch pan werthwch eich unig gartref. Yn yr un modd, os oes colled wrth waredu ni fydd y golled yn ganiatáol. Efallai y bydd yn rhaid i chi dalu treth, er enghraifft:

- os nad yw gardd neu dir eich cartref gan gynnwys safle'r tŷ yn fwy na hanner hectar (un erw a chwarter) ac nad yw rhan neu'r cyfan o'r tir ychwanegol hwnnw yn gymwys am ryddhad
- os na ddefnyddiwyd rhan o'ch cartref neu'ch cartref cyfan ar ryw adeg fel eich cartref; er enghraifft os cafodd ei osod neu ei ddefnyddio ar gyfer busnes
- os cawsoch ail gartref, ac ni fu'r eiddo a waredwyd gennych yn brif gartref i chi yn ystod cyfnod cyfan eich perchenogaeth.

Os credwch y gallai fod hawl gennych i gael rhyddhad preswylfan preifat os ydych wedi gwaredu, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR283: Private residence relief*.

Mathau eraill o ryddhad

Mae **Rhyddhad treiglol** yn caniatáu i enillion o waredu asedion busnes gael eu gohirio os caiff asedion newydd eu caffael. Os hoffech gael y rhyddhad hwn, gofynnwch i'r Llinell Archebu am Daflen Gymorth IR290: Business asset roll-over relief. Nid yw diffiniad ased busnes at y diben hwn yr un peth â'r un a nodir yn y golofn gyferbyn.

Cwblhewch y ffurflen gais sydd ynghlwm wrth *Daflen Gymorth IR290*. Amgaewch y ffurflen gais gyda'r Ffurflen Dreth pan fyddwch yn ei dychwelyd ataf. Os ydych yn gwneud cais o ran unrhyw waredu rhowch 'rhyddhad treiglol' a'r swm y gwnaed cais amdano yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwarediad hwnnw.

Mae rhyddhad ymddeol yn rhyddhau enillion a wnaed gan unigolyn 50 oed neu hŷn, neu a ymddeolodd yn gynnar ar sail afiechyd, wrth waredu ei fusnes (neu gyfranddaliadau mewn cwmni masnachu personol). Os credwch y gallai fod hawl gennych i gael y rhyddhad hwn, gofynnwch i'r Llinell Archebu am *Daflen Gymorth IR289: Retirement relief and Capital Gains Tax*. Ar gyfer rhyddhad ar sail oedran, ysgrifennwch 'rhyddhad ymddeol' a'r swm y gwnaed cais amdano yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwaredu perthnasol. Os ydych am gael rhyddhad ar sail salwch, ysgrifennwch 'rhyddhad ymddeol oherwydd salwch' yng ngholofn G gyferbyn â'r gwaredu perthnasol.

Mae **Rhyddhad daliol rhoddion** yn caniatáu i enillion gael eu gohirio pan gaiff rhai asedion eu gwaredu. Os ydych am gael y rhyddhad hwn, gofynnwch i'r Llinell Archebu am Daflen Gymorth *IR295: Relief for gifts and similar transactions.* **Mae'n rhaid i geisiadau gael eu gwneud drwy gwblhau'r ffurflen gais sydd ynghlwm wrth *Daflen Gymorth IR295* neu gopi o'r ffurflen**. Amgaewch y ffurflen gais gyda'ch Ffurflen Dreth. Ysgrifennwch 'rhyddhad daliol rhoddion' yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwarediad perthnasol gan roi'r swm y gwnaed cais amdano. Disgrifir mathau eraill o ryddhad ar gyfer rhoddion a thrafodion tebyg yn *Nhaflen Gymorth IR295: Reliefs for gifts and similar transactions*, er enghraifft, rhoddion i elusennau a cheisiadau i ohirio talu treth.

Noder bod y cais yn y rhan fwyaf o achosion yn gais ar y cyd gennych chi a'r person y rhoddoch yr ased iddo/iddi.

Mae **Rhyddhad perthynas dibynnol** yn caniatáu rhyddhad wrth waredu cartref rydych wedi ei roi i berthynas dibynnol ac a gafodd ei feddiannu gan y perthynas fel eu hunig breswylfan cyn 6 Ebrill 1988. Gweler *Taflen Gymorth IR283: Private residence relief*. Os ydych am gael y rhyddhad hwn, mae'n rhaid i chi wneud cais amdano ar y Tudalennau Enillion Cyfalaf drwy ysgrifennu 'rhyddhad perthynas ddibynnol' yn y blwch yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwarediad perthnasol. Rhowch swm y rhyddhad y gwnaed cais amdano.

Mae **Rhyddhad haneru** yn rhyddhau hanner ennill sy'n deillio o ennill a ohiriwyd cyn Ebrill 1988. Gweler *Daflen Gymorth IR280: Rebasing - assets held at 31 March 1982*. Os ydych am gael y rhyddhad hwn, mae'n rhaid i chi wneud cais amdano ar y Tudalennau Enillion Cyfalaf drwy ysgrifennu 'rhyddhad haneru' yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwarediad perthnasol gan roi swm y rhyddhad y gwnaed cais amdano.

Mae mathau o **ryddhad gohirio Cynllun Buddsoddiant Menter ac Ymddiriedolaeth Menter Cyfalaf** yn caniatáu i enillion gael eu gohirio pan fyddwch yn tanysgrifio ar gyfer cyfranddaliadau Cynllun Buddsoddiant Menter neu gyfranddaliadau Ymddiriedolaeth Menter Cyfalaf. Gweler *Taflen Gymorth IR297: Enterprise Investment Scheme and Capital Gains Tax* a *Help Sheet IR298: Venture Capital Trusts and Capital Gains Tax*. Er mwyn gwneud cais am ryddhad gohirio Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro, cwblhewch y ffurflen gais sydd ynghlwm wrth y Daflen Gymorth a'i hamgáu gyda'ch Ffurflen Dreth. Dim ond wrth dderbyn tystysgrif E153 gan y cwmni y buddsoddwyd ynddo y gellir gwneud cais am ryddhad gohirio Cynllun Buddsoddiant Menter. Amgaeir ffurflen gais gyda'r dystysgrif i'w chwblhau a'i chyflwyno gyda'ch Ffurflen Dreth. Pan fyddwch yn gwneud cais, ysgrifennwch 'rhyddhad gohirio Cynllun Buddsoddiant Menter' neu 'ryddhad gohirio Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro' yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwarediad perthnasol gan roi swm y rhyddhad y gwnaed cais amdano.

Rhyddhad gwaredu Cynllun Buddsoddiant Menter ac Ymddiriedolaeth Cyfalaf Menter. Gweler *Taflenni Cymorth IR297* ac *IR298*, fel uchod. Efallai na fydd unrhyw ennill o waredu cyfranddaliadau Cynllun Buddsoddiant Menter neu Ymddiriedolaeth Cyfalaf Mentro yn drethadwy i Dreth Enillion Cyfalaf. Os byddwch wedi manteisio ar un o'r mathau hyn o rhyddhad wrth waredu unrhyw gyfranddaliadau, ysgrifennwch 'rhyddhad gwaredu Cynllun Buddsoddiant Menter' neu 'rhyddhad gwaredu Ymddiriedolaeth Cyfalaf Menter' yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwarediad perthnasol gan roi swm y rhyddhad y gwnaed cais amdano.

Mae **rhyddhad trosglwyddo busnes** yn gohirio ennill a wnaed pan drosglwyddir busnes i gwmni yn gyfnewid am gyfranddaliadau. Rhoddir y rhyddhad hwn yn awtomatig. Os ydych wedi manteisio ar y rhyddhad hwn ar unrhyw waredu, ysgrifennwch 'rhyddhad trosglwyddo busnes' yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwarediad perthnasol gan roi swm y rhyddhad y gwnaed cais amdano.

Enillion na ellir eu talu. Os ydych wedi gwaredu ased a leolir y tu allan i'r DG ac ni allwch drosglwyddo'r enillion i'r DG oherwydd rheolaethau cyfnewid neu ddiffyg arian cyfred tramor yn y wlad dramor, yna gallwch wneud cais na ddylai'r ennill na ellir ei dalu fod yn drethadwy ym 1999-2000. Gallwch wneud cais am ryddhad drwy ysgrifennu 'enillion na ellir eu talu' yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwarediad perthnasol. Rhowch y swm y gwnaed cais amdano.

Enillion sy'n dod yn daladwy. Pan na fydd ennill wedi cael ei drethu mewn blwyddyn gynharach am nad oedd yn daladwy ond a all bellach gael ei dalu i'r DG, caiff ei drin fel ennill sy'n codi ym 1999-2000. Gall ennill ddod yn daladwy os, er enghraifft, diddymir rheoliadau cyfnewid. Dylech gynnwys unrhyw enillion y mae hyn yn gymwys iddynt p'un a chânt eu talu mewn gwirionedd i'r DG ai peidio.

Efallai y cewch wneud ceisiadau **gwerth dibwys**, a cheisiadau mewn perthynas â cholledion penodol na ellir eu hadfer bellach, ac effaith hyn yw crisialu colledion, yng ngholofn G ar Dudalen CG2. Ceir arweiniad pellach ar geisiadau o'r fath, yn eu tro, yn, *Nhaflen Gymorth IR286: Income Tax losses for shares you have subscribed for in unlisted trading companies* a *Thaflen Gymorth IR296: Debts and Capital Gains Tax*.

Rhyddhad ar gyfer colledion yn erbyn incwm. Cyflwynir y rhyddhad hwn ar dudalen CGN9. Os ydych yn gwneud cais am y rhyddhad hwn, ysgrifennwch 'rhyddhad ar gyfer colledion yn erbyn incwm' yng ngholofn G ar Dudalen CG2 gyferbyn â'r gwarediad perthnasol gan roi swm cyfan y golled yng ngholofn H. Rhowch y swm y gwnaed cais amdano ym mlychau 8.13, 8.13A neu 8.13B.

Adseilio. Dilynwch y cyfarwyddiadau ar dudalen CGN13.

Rhyddhad ar gyfer treth dramor a dalwyd. Os cafodd enillion sy'n drethadwy i Dreth Enillion Cyfalaf eu trethu hefyd mewn gwlad arall, efallai y gallech wneud cais am ryddhad drwy gyfrwng credyd ar gyfer y dreth dramor a dalwyd ('rhyddhad credyd treth'). Didynnir rhyddhad credyd treth o'r rhan honno o'ch rhwymedigaeth Treth Enillion Cyfalaf sy'n ymwneud â'r ennill y talwyd y dreth dramor arno. Os hoffech wneud cais am ryddhad credyd treth dylech ofyn i'r Llinell Archebu am gopi o'r Tudalennau Tramor, os nad oes gennych un eisoes.

Os oes gennych enillion sy'n drethadwy ar y sail taliad ac rydych am wneud cais am ryddhad drwy gyfrwng credyd ar gyfer treth dramor a dalwyd mewn perthynas â'r enillion hynny, bydd angen i chi adio at swm yr enillion net a ddygwyd i'r DG (hynny yw, yr enillion llai'r dreth dramor) y gyfran briodol o'r dreth dramor y gellir ei phriodoli i'r enillion net a dalwyd.

Os cronnodd ennill ym 1998-99 pan oeddech yn cael eich ystyried yn 'berson di-breswyl dros dro' ac rydych am wneud cais am ryddhad ar gyfer treth dramor a dalwyd, gweler *Taflen Gymorth IR278: Temporary non-residents and Capital Gains Tax*, sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Fel arfer bydd yn fanteisiol i chi wneud cais am ryddhad credyd treth o ran treth dramor a dalwyd. Ond ni fydd hyn yn wir os na fydd unrhyw Dreth Enillion Cyfalaf yn drethadwy ar ennill arbennig. Er enghraifft, pan fydd y gwarediad yn arwain at golled, neu pan fydd colledion a ddygwyd ymlaen yn dileu unrhyw enillion trethadwy, efallai na fydd unrhyw dreth yn y DG y gellir credydu treth dramor yn ei herbyn.

Os **nad** ydych am wneud cais am ryddhad credyd treth, didynnwch y dreth dramor wrth bennu swm yr enillion trethadwy neu'r colledion caniataol i'w dangos yng ngholofn H ar Dudalen CG3. Fodd bynnag, ni allwch ddidynnu rhan o'r dreth dramor wrth gyfrifo'r ennill wrth waredu a gwneud cais am gredyd ar gyfer y gweddill.

Os **ydych** am wneud cais am ryddhad credyd treth, dylech ofyn i'r Llinell Archebu am Dudalennau Tramor a chwblhau Tudalen F3. Os ydych yn cyfrifo eich treth, bydd angen *Taflen Gymorth IR261: Tax Credit Relief: Capital Gains* arnoch hefyd sydd ar gael o'r Llinell Archebu.

Adran 8 - Enghreifftiau gwaith o enillion a cholledion

Y cyfrifiad sylfaenol

Enghraifft 19
Cafodd darn o dir, a brynwyd ym mis Mehefin 1988 am £20,000 ei werthu ym mis Mai 1999 am £100,000. Roedd costau achlysurol y caffaeliad yn £1,000, tra roedd costau achlysurol y gwaredïad yn £5,000. Adeiladwyd ysgubor ar y tir ym mis Awst 1988 am £15,000 ac roedd yn dal yno pan gafodd y tir ei werthu.

Enillion gwaredu				£100,000
minws Costau achlysurol				£5,000
Enillion gwaredu net				£95,000
Cost		£20,000		
plws Costau achlysurol		£1,000		
plws Gwariant gwella		£15,000		
Cyfanswm		£36,000		£36,000
Ennill heb fynegai				£59,000
minws Lwfans mynegeio				
Costau caffael		£21,000		
Lwfans mynegeio	£21,000 x	0.525	=	£11,025
Gwariant gwella		£15,000		
Lwfans mynegeio	£15,000 x	0.507	=	£7,605
Ennill trethadwy, yn amodol ar ryddhad meinhau				**£40,370**

Colledion caniataol

Enghraifft 20
Mae gan unigolyn yr enillion trethadwy a'r colledion caniataol canlynol:

	1997-98	1998-99	1999-2000
Enillion	£10,000	£15,000	£25,000
Colledion	£25,000	£5,000	zero

Sefyllfa'r ennill trethadwy neu'r colledion caniataol am bob blwyddyn fyddai:

1997-98	Enillion	£10,000
	Minws colledion	£10,000
	Colledion i'w cario ymlaen	£15,000

Caiff colledion o'r un flwyddyn eu gwrthbwyso i ostwng enillion i sero.

1998-99	Ennill	£15,000
	Minws colledion y flwyddyn gyfredol	£5,000
	Minws colledion a ddygwyd ymlaen	£3,200
	Ennill net	£6,800
	Minws swm blynyddol a eithrir	£6,800
		sero
	Colledion i'w cario ymlaen (£15,000 *minws* £3,200)	£11,800

Rhoddir y flaenoriaeth i golledion o'r un flwyddyn a gaiff eu gwrthbwyso i golledion a ddygwyd ymlaen.

Caiff colledion a ddygwyd ymlaen eu gwrthbwyso i ostwng enillion i'r swm blynyddol a eithrir.

1999-2000	Ennill	£25,000
	Minws colledion a ddygwyd ymlaen	£11,800
Net ennill trethadwy yn amodol ar ryddhad meinhau		**£13,200**

Adseilio i 31 Mawrth 1982 - Dim dewis wedi ei wneud

Enghraifft 21
Roedd ased yn costio £250,000 ar 1 Mai 1979 gan gynnwys costau achlysurol. Mae'n werth £200,000 ar 31 Mawrth 1982 a chafodd ei werthu ar 15 Ebrill 1999 am £1,000,000 net costau achlysurol. Ni wnaed unrhyw ddewis ar gyfer adseilio i 31 Mawrth 1982.

	Cost wreiddiol		**Ennill a adseiliwyd**
Enillion gwaredu	£1,000,000	Enillion gwaredu	£1,000,000
minws Cost	£250,000	*minws* gwerth ar 31.3.82	£200,000
Ennill heb fynegai	£750,000	Ennill heb fynegai	£800,000
minws Mynegeio £250,000 x 1.047 =	£261,750	*minws* Mynegeio £250,000 x 1.047 =	£261,750
Ennill wedi'i fynegeio	£488,250	Ennill wedi'i fynegeio	£538,250

Yr ennill wedi'i fynegeio y dylid cymhwyso'r rhyddhad meinhau iddo yw'r isaf o'r ddau ffigwr: £488,250. Gweler y nodiadau ar dudalen CGN13 a *Thaflen Gymorth IR280*.

Gwaredu'n rhannol

Enghraifft 22
Prynwyd tŷ i'w osod ym mis Rhagfyr 1987 am £50,000 gan gynnwys costau achlysurol. Ym mis Mawrth 1988 cafodd ei is-rannu yn 2 fflat am £5,000. Gwerthwyd un fflat ym mis Ebrill 1999 am £120,000. Yn union cyn gwerthu gosodwyd system gwres canolog am £2,000 yn y flat a werthwyd. Treuliau achlysurol y gwaredu oedd £6,000 a gwerth y fflat a gadwyd oedd £80,000.

	Enillion gwaredu			£120,000
minws	Costau achlysurol			£6,000
				£114,000
minws	Rhan o gost y tŷ			
	£50,000 x £120,000 / (£120,000 + £80,000)		=	£30,000
minws	Tŷ wedi'i is-rannu			
	£5,000 x £120,000 / (£120,000 + £80,000)		=	£3,000
minws	Gwres canolog			£2,000
	Cyfanswm costau			£35,000 £35,000
	Ennill heb fynegai			£79,000
minws	Lwfans mynegeio			
	cost y tŷ	£30,000 x	0.574 =	£17,220
	is-raniad	£3,000 x	0.562 =	£1,686
	Cyfanswm y mynegeio			£18,906 £18,906
Ennill trethadwy yn amodol ar ryddhad meinhau				**£60,094**

■ *Gwaredu cyfranddaliadau cyfunol*

Enghraifft 23
Prynwyd 2,000 o gyfranddaliadau ym mis Mai 1988 am £9,000 gan gynnwys costau achlysurol. Ym mis Ionawr 1990 roedd dyroddiad hawliau o ddau gyfranddaliad am bob un a ddaliwyd ac o ganlyniad prynwyd 4,000 pellach am £20,000. Ym mis Mehefin 1999, gwerthwyd 600 o gyfranddaliadau am £6,000 net costau achlysurol.

	Nifer y cyfranddaliadau	Cronfa gwariant cymwys	Cronfa gwariant wedi'i mynegeio
Caiff daliad newydd ei greu ym mis Mai 1988:	2,000	£9,000	£9,000
Mae dyroddiad hawliau yn 'ddigwyddiad gweithredol' *(Esbonnir yr ymadrodd hwn yn Nhaflen Gymorth IR284)*			
Mynegeio	£9,000	x 0.125* =	£1,125
	2,000	£9,000	£10,125
Adiwch gost y cyfranddaliadau dyroddiad hawliau at y ddwy gronfa:	4,000	£20,000	£20,000
	6,000	£29,000	£30,125
Mae'r gwaredu rhannol ym mis Mehefin 1999 yn 'ddigwyddiad gweithredol'			
Mynegeio Ionawr 1990 hyd Ebrill 1998	£30,125	x 0.361 =	£10,875
	6,000	£29,000	£41,000
Dylech ostwng y ddwy gronfa drwy symiau cost a mynegeio a rannwyd	(600)	(£2,900)	(£4,100)
	5,400	£26,100	£36,900

Cyfrifo ennill trethadwy:

	Enillion gwaredu	£6,000
minws	Cost	£2,900
	Ennill heb fynegai	£3,100
minws	Mynegeio (£4,100 *minws* £2,900)	£1,200
	Ennill trethadwy yn amodol ar ryddhad meinhau	**£1,900**

***Noder: Ni ellir** cymryd y ffactor mynegeio (0.125) yma o'r tabl ar dudalen CGN16 oherwydd bod y 'digwyddiad gweithredol' wedi digwydd cyn Ebrill 1998. Gall eich swyddfa Cyllid y Wlad neu'ch ymgynghorydd treth ddarparu'r ffigurau cywir i'w defnyddio ar gyfer unrhyw fisoedd cyn Ebrill 1998.

■ *Rhyddhad ar gyfer treth dramor a dalwyd*

Enghraifft 24
Gwerthwyd eiddo gennych dramor gan sylweddoli ennill o £30,000 sy'n drethadwy i Dreth Enillion Cyfalaf yn y DG ar y sail taliad. Telir treth dramor o £9,000 ar yr ennill. O'r ennill net ar ôl treth o £21,000 dewch â £5,250 i mewn i'r DG. Rydych am wneud cais am ryddhad drwy gyfrwng credyd ar gyfer y dreth dramor a dalwyd.

Swm yr enillion sy'n drethadwy i dreth yn y DG yw:

Swm a dalwyd adiwch treth dramor	£5,250		
£5,250 / £21,000	x £ 9,000	=	£2,250

Mae rhyddhad credyd treth ar gael ar gyfer treth dramor (£2,250) y gellir ei phriodoli i'r ennill a dalwyd.

Os yw Treth Enillion Cyfalaf yn y DG ar ffigwr yr enillion trethadwy yn llai na swm y dreth dramor sydd ar gael ar gyfer credyd, ni ellir ad-dalu'r dreth dramor ychwanegol wrth gyfrifo'r enillion trethadwy. Er enghraifft, os yw'r enillion o £7,500 yn drethadwy ar 20%, bydd y dreth sy'n ddyledus o £1,500 yn cael ei chwmpasu'n llwyr gan ryddhad credyd treth. Ni fydd rhyddhad o unrhyw fath ar gael ar gyfer y dreth dramor ychwanegol o £750 (h.y, £2,250 *minws* £1,500).

Canllaw yn unig yw'r nodiadau hyn sy'n adlewyrchu'r sefyllfa ar adeg ysgrifennu. Nid ydynt yn effeithio ar unrhyw hawl i apelio.